PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 363 | TACHWEDD 2013

## Dringo Kilimanjaro




t11

## Mynwenta



t7

## Is-Lywydd CFFI



t18



Sarah a Philip Hughes ddydd eu priodas – gweler t.19



Teulu  Cwmwythig, Capel Bangor ddaeth yn gyntaf yng Ngwobrau Ffermio Prydeinig 2013 y *Farmers Guardian* yn y categori Fferm Deuluol y Flwyddyn. Gweler t.19




Parti Cyd-lefaru Ysgol Rhydypennau - gweler t.8



Y Parti o Ysgol Rhydypennau fu yn cystadlu ar y cerdd dant a'r alaw werin gweler t.8

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Rhagfyr

**Deunydd i law: Rhagfyr 6 | Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 18**

**TACHWEDD 20** Nos Fercher Geraint Jones Cofio RS Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30.

**TACHWEDD 21** Nos Iau Noson gan aelodau CIC i groesawu Zoe Jones, gweithiwr newydd y Fenter yn Festri'r Garn am 7.00

**TACHWEDD 21** Nos Iau Cwis yn Neuadd Rhydypennau am 7.30

**TACHWEDD 23** Nos Sadwrn Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Pridd gan Aled Jones Williams ym Morlan, Aberystwyth. Tocynnau: 617996

**TACHWEDD 27** Nos Fercher Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion yn Yr Hen Ysgoldy Llanddeiniol am 8.00

**TACHWEDD 28** Nos Iau Cyngerdd Nadolig Merched y Wawr Ceredigion yng nghwmni Bois y Gilfach yng Nghapel y Tabernacl, Aberaeron am 7.30. Tocynnau £5. Elw at Sefydliad Prydeinig y Galon yng Ngheredigion. Croeso cynnes i bawb.

**TACHWEDD 29** Nos Wener Cracyr o Noson ym Methlehem, Llandre.

**TACHWEDD 30** Nos Sadwrn. Arwerthiant Celf a Chrefft Leol, gwin twym a mins peis yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch rhwng 5-7.00. Tocynnau ar y drws £4 (i gynnwys mins pei a 2 wydr o win twym).

**TACHWEDD 30** Nos Sadwrn Bara Caws yn cyflwyno 'Llanast' (Yasmina Reza; addasiad Gareth Miles) yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 7.30.

**RHAGFYR 1** Nos Sul Cyngerdd Nadolig. Côr ABC yn cyflwyno Lux aeterna (Morten Lauridsen) yn Eglwys Padarn, Llanbadarn Fawr, am 7.30

**RHAGFYR 2 a 3** Dyddiau Llun a Mawrth Ffair Aeaf, Llanelwedd

**RHAGFYR 4** Nos Fercher Bingo yn Neuadd Rhydypennau am 7.30

**RHAGFYR 5** Nos Iau CIC yn creu cardiau gyda Fal Jenkins yn Festri'r Garn am 7.00.

**RHAGFYR 6** Nos Wener Noson Goffi a Raffl Fawr; adloniant gan Meibion y Mynydd yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.00

**RHAGFYR 7** Dydd Sadwrn Ffair Nadolig Plaid Cymru Gogledd Ceredigion yn Neuadd y Buarth, Aberystwyth am 10.30

**RHAGFYR 7** Nos Sadwrn Cyngerdd Corau Ger-y-lli a Godre'r Garth yn perfformio Atgof o'r ser (Robat Arwyn) yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Aberystwyth.Tocynnau ar gael o Ysgol Penrhyn-coch, Siop Inc neu drwy gerylli@gmail.com

**RHAGFYR 8-15** Sul i Sul Gŵyl Coeden Nadolig cyntaf Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch.Yn ystod yr wythnos bydd yr eglwys ar agor 2-4.00 a 6-8.00

**RHAGFYR 13** Nos Wener Cymdeithas y Garn yn dathlu'r Nadolig gyda Trefor ac Eleri yn festri'r Garn am 7.30

**RHAGFYR 19** Nos Iau Plygain dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch am 7.30

**RHAGFYR 20** Dydd Gwener Gwasanaeth Nadolig Ysgol Penweddig

**RHAGFYR 20** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau Nadolig

**RHAGFYR 22** Nos Sul Gwasanaeth Carolau Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6.00

**RHAGFYR 23** Dydd Llun CIC yn canu carolau – cyfarfod ym Maes Gogerddan, Aberystwyth Manylion i ddilyn

## Rhaghysbysiad

**EBRILL 19** Nos Sadwrn Dafydd Iwan yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth. Tocynnau £10 yn mynd ar werth dechrau'r flwyddyn. Holl elw'r noson tuag at Apêl Elain

### Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

Ymunwch â Grŵp **Facebook Ytincer**

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer fis Hydref 2013**

**£25** (Rhif 58) Tegwyn Lewis, Rhos-goch, Capel Madog

**£15** (Rhif 245) Elwyn Ioan, 11 Ffordd y Drindod, Aberystwyth

**£10** (Rhif 70) T & B Hughes, Pantyperan, Llandre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Hydref 16.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd. Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.



## 30 MLYNEDD YN OL

Y gwŷr a wnaeth Noson y Dynion, Trefeurig, yn llwyddiant.
(O'r *Tincer* Tachwedd 1983)

Dickywyn Davies, Penrhyn-coch yn derbyn siec o £100. o nawdd i'r *Tincer* gan Rees Thomas, Bow Street, Cyn-Gadeirydd Cylch Cinio Aberystwyth. Hefyd yn y llun mae Cadeirydd newydd y Cylch, Endaf Edwards. Mae'r Cylch Cinio yn noddi y pedwar papur bro yn yr ardal ers rhai blynyddoedd ac mae nifer o'r aelodau yn dod o ardal cylchrediad *Y Tincer*. Sefydlwyd y Cylch Cinio dros 30 o flynyddoedd yn ôl ac mae'n cyfarfod yn fisol dros bryd da o fwyd ac yn gefnogol i lawr o achosion da yn lleol a thu hwnt. Mae'r Cylch hefyd yn noddi cystadleuaeth y Côr yn Eisteddfod Aberystwyth 2014. Mae'r drws ar agor i aelodau newydd o bob oed.









Diolch i bawb gysylltodd i esbonio lle tynnwyd y llun ddaeth gan William Graham, Awstralia. Y cyntaf i gysylltu oedd Elfed Evans, Bod Alwyn. Mae'n debyg mai Penrhyn Canol sydd yn y llun – fe'i tynnwyd o ardal Tyddyn Seilo yn edrych yn ôl gyda'r Bwthyn ar y dde ( cyn iddo gael ei ailadeiladu). Mae y tai ar y chwith yn dal yna ond y ffordd bellach yn uwch. Adeiladwyd tai bellach yng ngardd Bron Dderw ar y tir y tu ôl i'r gwrych sydd ar y dde.
Gwelir yr olygfa heddiw yn yr ail lun.

### RHODD

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Iwan a Lowri Jones, Tangeulan, Capel Bangor £6

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

# PENRHYN-COCH

**Oedfaon Horeb**
Gweler hefyd http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php

**Tachwedd**
24 10.30yb: Oedfa Bregeth (Y Parchg Jill Tomos)

**Rhagfyr**
1 10.30yb: Ysgol Sul; 2.30yp : Oedfa Gymun (Gweinidog)
8 10.30yb: Oedfa'r Garol a'r Gân. Cynhelir yr Ysgol Sul.
15 10.30yb: Oedfa Arbennig i Gyflwyno Gweddïau. Cynhelir yr Ysgol Sul
22 2.30yp: Oedfa Nadolig
25 8.00 Oedfa bore'r Nadolig
29 10.30yb: Oedfa Ddiwedd Blwyddyn (Gweinidog)

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 27 Tachwedd ac 11 Rhagfyr. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Eglwys Sant Ioan
## Urdd y Gwragedd

Ar nos Lun, Tach 4ydd, bu Mrs Sian James, Pen-banc yn dangos ei dawn o wneud blodau allan o bast siwgwr ar gyfer addurno cacennau. Roedd crynhoi y darnau o'r blodau at ei gilydd a'u llywio yn waith cywrain ac angen amynedd ond roedd y gwaith gorffenedig yn bleser i'w weld. Pob llwyddiant i Sian fydd yn cystadlu yn y Ffair Aeaf y mis nesaf.



**Nigel Humphreys yn lansio ei gyfrol farddoniaeth *Of moment* yn Llundain y mis diwethaf. Bu lansiad arall yn Aberystwyth ar 14 Tachwedd.**



**Brownies Penrhyn-coch yn Sul y Cofio**

## Arwethiant Celf a Chrefft Leol

Cynhelir noson o arwerthiant Celf a Chrefft Leol yn ogystal â gwin twym a mins peis yn Neuadd yr Eglwys ar nos Sadwrn 30 Tachwedd rhwng 5-7y.h. Tocynnau ar y drws £4 (i gynnwys mins pei a 2 wydr o win twym).

## Gŵyl Coeden Nadolig

Cynhelir Gŵyl Coeden Nadolig cyntaf Eglwys Sant Ioan. Dewch yn llu i weld yr eglwys yn ei holl ysblander Nadoligaidd o ddydd Sul 8fed Rhagfyr o 2-4 y. h. hyd at ddydd Sul 15fed Rhagfyr. Yn ystod yr wythnos bydd yr eglwys ar agor i chi weld yr arddangosfa rhwng 2-4y.p. a 6-8y.h.

## Eisteddfod 2014

Cyhoeddodd Mairwen Jones, Ysgrifennydd yr Eisteddfod, y cynhelir Eiedteddfod 2014 ar 4 a 5 Ebrill.
Cynhaliwyd eisteddfod gyntaf Penrhyn-coch hanner can mlynedd nôl ym 1964 ac mae cysylltiad â'r Eisteddfod gyntaf a nifer o enwau 2014.

Y beirniaid fydd
Nos Wener:
Cerdd – Magwen Pughe, Cemaes
Llefaru – Fflur Fychan, Machynlleth (wyres Vera Evans, Y Bwthyn, Trysorydd cyntaf)
Dydd Sadwrn
Cerdd – Meinir Jones Parry, Caerfyrddin
Llefaru a llenyddiaeth – Osian M. Jones, Nercwys

Y llywyddion fydd
Nos Wener Ceinwen Jones, Felin-fach (merch Mrs Nesta Edwards, ysgrifennydd cyntaf).
Pnawn Sadwrn Brian Davies, Abertawe (mab Elfed Davies oedd yn arwain yr Eisteddfod gyntaf). Daeth Brian a'i wraig yn dad-cu a mam-gu yn ystod y mis – ganwyd merch fach – Eleri Haf – i Sara ac Ian bore Sul 3 Tachwedd. Llongyfarchiadau!

Nos Sadwrn Marianne J Powell, Llandre – fu yn cystadlu yma ar hyd y blynyddoedd. Bydd y gadair yn cael ei rhoi gan Elsie a Morris Morgan, y Bwthyn – merch a mab yng nghyfraith y trysorydd cyntaf.

Roedd yn dda gweld enillydd Tlws yr Ifanc 2010 – Megan Lewis, Llanfihangel y Creuddyn, o Glwb FF I Trisant– yn ennill Cadair Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Ceredigion ar 2 Tachwedd a chadair Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc ar Ynys Môn ar 16 Tachwedd. Ac yn ol un o feirniaid Ceredigion Mae Megan erbyn hyn yn fyfyrwraig trydedd flwyddyn yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth ac yn ôl y beirniad – Gwenallt Llwyd Ifan , yn "un sy'n astudio pobol, iaith a thafodiaith yn graff". Dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Eluned a Ceri John ar enedigaeth mab – Owen - ddiwedd mis Hydref – ŵyr arall i Pam ac Alun John, Ger-y-llan.

## Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch

Cafwyd cyngerdd llwyddiannus yn yr eglwys ar nos Wener 11eg o Hydref. Cymerwyd rhan gan Gôr Meibion



### Penodi'n Gadeirydd

Dymuniadau gorau i Gwerfyl Pierce Jones, Ger-y-llan – Cadeirydd newydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru.

Aberystwyth, dan arweiniad Mrs Carol Davies a Mrs Elenid Thomas yn cyfeilio. Mrs Marianne Powell oedd yr unawdydd gwadd, a chafwyd adroddiadau gan Oisín a Caoimhe o Bont-goch. Llywyddwyd y noson gan Dr John Clifton Brown, arweinydd prosiect bridio 'Miscanthus' sef cnwd biodanwydd yn IBERS, Penrhyn-coch. Cyflwynwyd yr artistiaid a thalwyd y diolchiadau gan y Parchedig R. Williams.

### Pen blwydd arbennig

Dymuniadau gorau i Meinir Hurford, Dôl Helyg, a ddathlodd ben blwydd arbennig yn ddiweddar.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Greg a Gemma ar eu dyweddiad ddechrau'r mis.

### IBERS

Llongyfarchiadau i'r Athro Wayne Powell , Cyfarwyddwr IBERS, sydd wedi cael ei apwyntio fel Prif Swyddog Gwyddonol gyda Chonsortiwm CGIAR (Grwp Ymgynghorol ar Ymchwil Amaethyddol Rhyngwladol). Ymunodd yr Athro Powell â Phrifysgol Aberystwyth yn 2008, yn Gyfarwyddwr cyntaf ar Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig a oedd newydd ei sefydlu.

Yn ystod ei bum mlynedd wrth y llyw, mae'r Athrofa wedi ennill sawl gwobr, gan gynnwys Gwobr Pen-blwydd Coroni'r Frenhines am Addysg Uwch yn 2009 am arwain y maes yn rhyngwladol yn ei gwaith bridio planhigion er budd y cyhoedd, ac fe gyrhaeddodd restr fer Gwobrau Addysg Uwch y Times yn 2013 yng nghategori Cyfraniad Eithriadol i Arloesi a Thechnoleg. Yn 2011 enillodd IBERS Wobr y BBSRC am Ragoriaeth ag Effaith.

### Clwb Hanner Tymor Horeb

Aeth trefniadau y Clwb Hanner Tymor yn hwylus iawn yn ystod yr hanner tymor – cafwyd hwyl arbennig yng nghwmni'r plant. Mae'n debyg y bydd gweithgaredd tebyg yn cael ei gynnal yn ystod hanner tymor mis Chwefror 2014.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Colin Roberts, Cae Mawr ar farwolaeth ei fam yn Sir Fôn ac â Eleri a Steve, Catrin Alaw a Megan Haf., Dôl Helyg, ar farwolaeth tad-cu Eleri, Geraint Jones, Llangawsai ar y seithfed o Dachwedd.

### Ennill is-etholiad

Llongyfarchiadau i Lucy Huws (Tyddyn Seilo gynt) am ennill yr Is-etholiad yn Ward Bron-glais, ar gyfer Cyngor Tref Aberystwyth ar Dachwedd 7fed. Y canlyniad oedd
Lucy Huws (Plaid Cymru) 204
Bryony Davies (Democratiaid Rhyddfrydol) 128
Huw Fox (Annibynol) 17
Cafodd Plaid Cymru 58.5% o'r bleidlais.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Ar nos Iau y 10fed o Hydref aeth y gangen i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol. Croesawodd ein Llywydd, Sue Hughes, ni i gyd yno, yna fe gyflwynodd Emyr Jones i ni fel ein tywysydd am y noson. Rhoddodd yntau groeso cynnes i ni a chyflwyno Dafydd i ni, yr oedd yn mynd i'n helpu i fynd o amgylch yr adeilad mawr yma. Aeth Emyr â ni i gychwyn i'r Drwm, a dweud dipyn o hanes y Llyfrgell, yna fe ddangosodd i ni ffilm a'r hanes yn cael ei chyflwyno gan Huw Edwards. Ar ôl gweld y ffilm fe'n tywysodd o amgylch y Llyfrgell, i'r archif sgrîn a sain, ac i weld yr arddangosfa bresennol ac i adran y darllenwyr. Yn anffodus aeth yr amser i'n



### Casglwr Diwyd

Y mae llawer ohonom yn ystod ein hoes yn hoff o gasglu pethau o ddiddordeb i ni, fel enghraifft: stampiau, tedis, ceir bach, mygiau ac yn y blaen, ond mae Howell Evans, Y Ddôl Fach, yn casglu "cadw mi geis". Aeferai Howell bysgota ond gan nad yw yn gallu mynd i bysgota bellach roedd am rywbeth arall i fynd a'i amser a phenderfynodd ddechrau casglu cadw-mi-geis. Mae ganddo dros fil ohonynt bellach yn ei gartref; rhai o bob math ac mae yr arddangosfa liwgar yn werth ei gweld. Yn eu plith mae set o foch arferai banc nid anenwog eu rhannu. Ac mae yn dal i gasglu, ond mae yn mynd yn anoddach cael lle iddynt. Gwelir Howell yn y llun ynghanol rhai o'r cadw-mi-geis.







Symudodd Ysgol Feithrin Trefeurig i'w cartref newydd moethus yn y Caban ger Ysgol Penrhyn-coch. Y diwrnod cyntaf yn y Caban.



Y diwrnod olaf yn y Neuadd

herbyn cyn gweld llawer mwy. Diolchwyd i Emyr am amser gwych yn ei gwmni gan Ceri Williams.

Yn fe aethom ymlaen i Glwb Rygbi Aber i gael swper. Yn ystod y swper trafodwyd peth o fusnes misol a tynnwyd y raffl. Diolchwyd am y bwyd blasus dros ben a baratowyd gan Mansel Beechey ac i'r bechgyn a fu'n gweini gan ein Llywydd. Yna fe aeth pawb tua thre ar ôl noson arall ardderchog.

### Pen blwydd arbennig

8fed o Dachwedd 2013. Mae newydd fod yn dymor diolchgarwch. Pwy mor ddiolchgar ydym ni o gael codi yn fyw ac yn iawch bob bore. Gwn fy mod i yn ddiolchgar dros ben ac yn arbennig heddiw ar yr 8fed o Dachwedd. Fe wnes i nôl fy mhapur dyddiol am saith o'r gloch y bore fel arfer, ac yna yn ôl i'r tŷ a gwrando ar y newyddion am y byd a'i broblemau, gwneud cwpanaid ac yna gwneud y croesair yn y *Western Mail*. Trefn bob bore i mi. Yna yn ystod y bore, cael y fraint o ffonio fy modryb Vi yn Llundain i ddymuno pen blwydd hapus iddi a hithau yn dathlu ei phen blwydd yn 105 oed, ac yn clywed ei llais mor glir ag erioed, yn diolch i mi yn Gymraeg fel mae yn wneud bob amser. Dweud ei bod wedi derbyn carden oddi wrth y frenhines unwaith eto, ac yn edrych ymlaen i dreulio diwrnod hapus yng nghwmni ei theulu. Oes, mae gennyf lawer i ddiolch amdano yn yr hen fyd yma. Dymuniadau gorau i Modryb Vi a phob bendith. Mairwen a'r teulu

### Diolch

Dymuna Glenys Thomas, Cwmfelin, ddiolch i bawb am y dymuniadau da, cardiau, galwadau ffôn, rhoddion ac yn y blaen a dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd yn 80eg oed. Diolch yn fawr.

### Diolch

Hoffwn ddiolch am yr holl gardiau, cyfarchion ac anrhegion a gefais ar fy mhen blwydd arbennig.

**Hugh Panteg**

# Ysgol Penweddig a Gyrfa mewn Meddygaeth



Mae Ysgol Penweddig yn awyddus i roi pob cyfle i'w disgyblion ymdrechu i lwyddo. Fel rhan o'r Cynllun Ffordd Ymlaen cawsant y pleser o groesawu tri chyn-ddisgybl llwyddiannus, sy'n astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Ymwelodd Osian Penri (o Landre), Siân Thomas (o Aberystwyth) a Tomos Hywel (o Gapel Dewi) â'r ysgol i siarad â disgyblion y chweched dosbarth am eu profiadau ym maes Meddygaeth. Dysgodd y disgyblion am y broses ymgeisio a rhoddwyd awgrymiadau gwerthfawr wrth baratoi ar gyfer eu ceisiadau yn y dyfodol. Siaradodd pob un o'r meddygon dan hyfforddiant am eu profiadau personol a rhoddwyd golwg manwl ar fywyd mewn ysbyty prysur. Anogwyd myfyrwyr Penweddig, sy'n awyddus i ddilyn gyrfaoedd mewn gwahanol feysydd o feddygaeth a chyrsiau milfeddygol, i ymchwilio'n drylwyr cyn dewis ble i astudio ac ennill cymaint o gyfleodd i wirfoddoli yn yr ardal leol, er mwyn datblygu eu sgiliau. Rydym yn edrych ymlaen at gyswllt parhaus, gan fod y meddygon ifanc yn gweithredu fel mentoriaid ar gyfer ein disgyblion ac yn eu cefnogi yn eu llwybrau gyrfa yn y dyfodol. Byddant hefyd yn cymryd rhan mewn cyfres o ffug-gyfweliadau, fel rhan o'r cynllun, yn paratoi ymgeiswyr eleni ar gyfer eu cam cyntaf mewn gyrfa feddygol.

# Mynwenta



Tabernacl, Cwmsymlog . Llun (trwy ganiatâd) o wefan Ymddiredolaeth Cadwraeth Mwynfeydd Cymru http://welshminestrust.org

**Daw ymholiadau o dro i dro am hanes teuluoedd sydd â chysylltiad a mynwent a chapel Horeb – dyma dair enghraifft gododd y llynedd.**

Cysylltodd Anne Thorne o Lundain trwy e-bost yn holi tybed fyddai modd cael mwy o wybodaeth am ei hymchwil am fanylion dyddiau cynnar ei hen dad-cu, y Parchg William Jones (1848-1930). Ganwyd William Jones yn Lerpwl ond daeth i Benrhyn-coch yn dair oed i fyw gyda'i fam-gu, Elizabeth Jones. Mae yn chwilio am ei ddyddiad geni neu enwau ei rieni. Fe geir yr enw Benjamin Jones fel 'tad' ar ei dystysgrif priodas gydag Ann er na ddaeth Anne Thorne ar draws cyfeiriad arall at Benjamin yn unlle.

Pan oedd yn 10 oed roedd William yn gweithio yng ngwaith Cwmsymlog ac yn 12 oed fe'i bedyddiwyd yn yr ardal (gallai fod yn y Tabernacl neu yn Horeb) - gan ddod yn fachgen bregethwr a rhoi ei bregethau cyntaf yng Nghapel Tabernacl, Cwmsymlog. Priododd Ann Spedding o Gwmsymlog, yn Horeb, ar Chwefror 6ed 1869 a buont yn byw gyda rhieni Ann yn Nhynllechwedd, Cwmsymlog lle ganwyd eu dwy ferch gyntaf - un yn fam-gu i Ann Thorne. Disgrifir William Jones fel diacon.

Ar ôl cyfnod yng Ngholeg Bedyddwyr Llangollen ym 1872 cafodd ei ofalaeth gyntaf yn Llangyndeyrn a Meinciau yn Sir Gaerfyrddin lle bu am ddeng mlynedd (1872-82); tra yno cafodd ferch arall a mab ond yn drist bu ei wraig farw yn 33 oed ym 1877 a'i fab bach y flwyddyn wedyn yn dair oed.

Aeth i Eldon Street, Llundain ym 1882 ac oddi yno ym 1885 i Brynhyfryd, Treharris lle bu am 38 mlynedd (1885-1923). Bu'n Gadeirydd Cymanfa Dwyrain Morgannwg 1908 ac roedd yn aelod o Fwrdd Ysgol Merthyr. Bu farw Ebrill 23 1930 yn 82 oed.

Roedd ei enw ar garreg oedd ar fur y capel yn Nhreharris ond yn anffodus mae Brynhyfryd yn un o'r capeli ddymchwelwyd.

Mae digon o hanes cyfnod William Jones yn weinidog ar gael ond prin yw'r dystiolaeth am ei blentyndod.

* * * * * *

Mae cofnod ar gynllun y fynwent fod bedd heb garreg mewn man penodol yn y fynwent. Nodir mai bedd Sarah Thomas a'r Parchg Thomas Lewis ydyw. Mae'n debyg mai brawd a chwaer oeddynt - ac yn frawd a chwaer i fam-gu Doreen Sedgwick, Ella James a Dilwyn a Tommy Lewis. Mae Mairwen Jones yn cofio Sarah yn porthi pan fyddai pregeth ymlaen yn y capel.

Tybed pa mor gyffredin yw claddu brawd a chwaer yn yr un bedd? Os gwyddoch am enghreifftiau eraill, cysylltwch â'r Golygydd.



Bu'r Parchg Thomas Lewis yn weinidog yn Heol y Cyw, Pen-y-bont ar Ogwr, am flwyddyn ym 1921 cyn symud i Godreaman, Aberdâr lle bu am 4 blynedd. Roedd nifer o gapeli yng Nodreaman ac yn anffodus nid yw eu cofnodion wedi eu cadw. Tybed ai yn Salem, Godreaman fu? – capel oedd ar agor o ca 1906-ca1962.

Teimlodd yr angen i efengylu ac aeth i lawr i Brighton; pan dorrodd y Rhyfel allan aeth ymlaen i Lundain ac wedyn i Iwerddon. Gorffennodd ei oes yn y Gospel Assembly yn Stryd Whitting Glyn-nedd a bu fawr ar Fehefin 7fed 1953 yn Aberdâr. Pan holwyd Mrs Peter Sandry, Stryd Whiting, Glyn-nedd soniodd fod Thomas Lewis wedi bod yn weinidog ar y Glynneath Gospel Hall o Fehefin 3 1950 hyd Fawrth 1952.

Ceir adroddiad o'i angladd yn y *Welsh Gazette* 18/6/1953 t.10

(Roedd cyfaill coleg i mi o Lyn-nedd yn byw yn Stryd Whitting a bum yno yn aros sawl gwaith – ond roedd y Neuadd wedi ei chau erbyn hynny). CG



* * * * * *

Yna daeth galwad 18 Medi 2012 fod cwpl ifanc o Melbourne, Awstralia, yn Garej Tŷ Mawr yn holi am fedd cyndaid o weinidog â'r cyfenw Mathias. Yr unig Mathias ar fynegeion Euronwy James i fynwentydd y plwyf oedd bedd merch chwech oed - mae yr ail fedd ar y chwith wrth fynd i mewn trwy y giât o flaen y capel. Arno ceir y geiriau

Er coffadwriaeth am Sarah, merch fechan James a Jane Mathias, Bryntirion, Penrhyncoch, ganwyd Ionawr 8fed, 1866; bu farw Awst 24ain, 1872

Diyngan y gwan geinwedd - ireiddwys
A roddwyd mewn llygredd;
Ond eilwaith uwch dialedd,
Daw'n iach angel bach o'r bedd.

Nid oes sôn fod James a Jane wedi eu claddu yn y plwyf. Ond yna gwelwyd nodyn yn llyfr David Jenkins *O Blas Gogerddan i Horeb* t.6 fod y gŵr yma yr un person a John Goronwy Mathias y ceir erthygl amdano yn *y Bywgraffiadur Cymreig*

Fe'i ganwyd ym Manceinion gan symud yn ifanc i Benrhyn-coch lle y bedyddiwyd ef a'i godi i bregethu. Ar ôl cyfnodau yn Aberdâr a Chwm Rhymni daeth i Erwyd, Sir Frycheiniog a wedyn eglwysi yn Sir Ddinbych. Dychwelodd i'r weinidogaeth Saesneg ym Mhontlotyn ym 1893 ac yno y bu farw ar 18 Chwefror 1895 yn 53 oed. Claddwyd ef yn Erwyd. Cychwynodd a golygodd wyth rhifyn o'r *Llenor Cymreig* (1882-1883) a nifer o gylchgronau eraill. Roedd yn ysgrifennu dan yr enw Goronwy Ddu. Ond nid oes sôn yn y Bywgraffiadur iddo golli merch fach tra ym Mhenrhyn-coch.

Yn anffodus ni adawodd y cwpl o Awstralia eu manylion ac ni fu iddynt gysylltu â mi; methwyd cysylltu a nhw drwy Gymry Melbourne.

**Ceris Gruffudd**

# GOGINAN



### Dymuniadau gorau

Pen blwydd hapus i Chris Jones, Rose Cottage, ddechrau mis Tachwedd; ni fydd y bws yn gyfleus o hyn ymlaen!

Hefyd yn dathlu ar y cyntaf o Dachwedd oedd Mair Evans, Idris Villa, (Mair y post) ond blwyddyn nesaf fydd y dathlu mwyaf.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Bethan ag Aled Bebb a'r teulu, Penpistyll, ar farwolaeth ei thad, Geraint Jones, Llangawsai ar y seithfed o Dachwedd.

### Cefnbangor Rob Roy

Llongyfarchiadau i Dei, Carol a'r teulu, Cefnbangor, ar ymddangosiad Cefnbangor Rob Roy yn sioe fawr flynyddol y ceffylau. Ebol oedd i'r gaseg Cefnbangor Sali ac fe'i gwerthwyd fel ebol ac yn fuan roedd yn llwyddiannus mewn sioeau mawr a bach drwy'r wlad. Pan yn bedair fe werthwyd i Jane Corbutt o Solihull lle dechreuodd ei ddangos dan gyfryw yn cael ei farchogaeth gan Amy Silcox. ac eleni enillodd y cyfle i gystadlu yn y sioe fawr. Fe ddaeth yn bumed allan o 22 o gobiau Cymraeg ac roedd hyn yn gamp enfawr gan mai ond ceffyl ifanc ydyw eto.

y tincer
ytincer@googlemail.com

# Gŵyl Cerdd Dant 2013

Yn ystod Yr Ŵyl Gerdd Dant cafodd yr Ysgol lwyddiant arbennig gyda thri parti. Cipiodd Y Parti Cerdd Dant y wobr gyntaf (hyfforddwyr Helen Medi ac Eleri Roberts); ac fe lwyddodd Y Parti Alaw Werin (hyfforddwraig - Helen Medi) a'r Parti Cyd Lefaru (hyfforddwraig - Llinos Bonsall) gipio'r ail wobr yn eu cystadlaethau hwy. Cyfanswm y gwobrau oedd £200. Campus!
Cyfrannwyd £50 i'r wyl gan ein Cymdeithas Rhieni Athrawon.

Llongyfarchiadau i Barti Cerdd Dant Ysgol Gyfun Penweddig gafodd ywobr gyntaf yn y gystadleuaeth parti cerdd dant oedran ysgolion uwchradd ac i Esther Ifan, Mared Pugh-Evans, Medi Evans a Catrin Huws ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth Ensemble Telyn Agored hyd at 4 mewn nifer.

# Cystadlaethau

**Bydd Banc Bro Llanfihangel Genau'r–Glyn yn cyflwyno Cracer o noson:** dathliad Nadoligaidd i'r Gymuned i gefnogi Ambiwlans Awyr Cymru ym Methlehem, Llandre nos Wener 29 Tachwedd am 6.30. Mynediad £2. Plant am ddim. Stondinau; Diodydd Tymhorol; Mins Peis; Cerddoriaeth; Raffl; Cystadlaethau; Gwobrau; Anrhegion.

**Cystadlaethau**
**yn agored i unrhyw un o unrhyw le**
**Dwy adran –**
**i) plant ysgolion cynradd ii) oedolion**

**Jôc cracer (addas i'r teulu)**
**Llunio brawddeg ar y gair N A D O L I G**
**Gorffen Limrig:**

Mae cinio Nadolig fel arfer
Yn gyfle i dynnu sawl cracer
Ond ar ôl dweud hyn
Yng Ngenau y Glyn

**Gwobrau . . . Cracers**

Mae'n agored i chi roi mwy nag un cynnig ar bob cystadleuaeth
Cynigion i law cyn 24.00 nos Fercher 27.11.13 i naill ai i:
Gwenda James, TreMedd **gwenda_llan@yahoo.co.uk** David England, Pantyglyn **daiamair@pantyglyn.freeserve.co.uk** neu Wynne Melville Jones, Y Berllan **wynmel@hotmail.co.uk** Rhowch ffug-enw wrth y gwaith a nodwch eich enw llawn a'ch cyfeiriad mewn amlen neu neges e bost ar wahan. Os yn cystadlu yn yr oedran cynradd dylid nodi oedran. Bydd barn y beirniad yn derfynol.
Dewch i fwynhau a bod yn rhan o'n cymuned.

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

Cefnogwch eich cwmniau lleol

## DOLAU

### Penodi'n Bennaeth

Llongyfarchiadau i Pete Leggett ar gael ei benodi yn brifathro Ysgol Padarn Sant, Aberystwyth. Mae Pete ar hyn o bryd yn Bennaeth â gofal yn Ysgol Craig yr Wylfa yn y Borth. Bu cyn hynny yn dysgu mewn ysgolion yn ne Ceredigion. Bydd yn dilyn troed ei dad-cu a'i hen dad-cu fu yn brifathrawon. Mae Pete yn gerddor dawnus – bu'n organydd yn Eglwys Babyddol Gwenfrewi, Aberystwyth am flynyddoedd ac mae'n canu gyda nifer o gorau amlwg yng Ngheredigion. Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd yn Ionawr ar ôl i'r pennaeth presennol, Angelo James, ymddeol. Dymuniadau gorau iddo.

### Crwydro Asia

Clywyd sgwrs ddiddorol rhwng John Hardy a Heledd Hall ar raglen Nia Roberts ar Radio Cymru bnawn Mercher 30 Hydref o Kuala Lumpur. Mae hi a'i gŵr Brian allan ym Malaysia ers deufis oherwydd gwaith Brian gyda Phrifysgol Ryngwladol Malaya Cymru – sefydliad sy'n deillio o'r bartneriaeth ar y cyd rhwng Prifysgol Malaya a Phrifysgol Cymru / Y Drindod Dewi Sant. Soniodd fel y cawsant gyfle i deithio ar benwythnosau i Malacca, Sabah, Terengganu ac ardaloedd eraill gan fwynhau gweld diwylliant gwahanol. Yn y dyfodol maent yn gobeithio cael cyfle i ymweld â Penang a gwneud ychydig o hwylio. Roedd yn edrych ymlaen i weld y teulu pan fyddai yn dychwelyd am gyfnod byr dros y Nadolig.

**Cyngerdd Nadolig**
**Côr ABC**
**yn**
**Eglwys Llanbadarn Fawr**
**Nos Sul Rhagfyr 1af**

**Cyngerdd Corau Ger-y-lli**
**a Godre'r Garth**
**Yn pefformio Atgof o'r sêr**
**(Robat Arwyn)**
**Nos Sadwrn Rhagfyr 7fed**
**yn Eglwys y Drindod Sanctaidd**

# Colofn Mrs Jones

Peth rhyfedd iawn yw geneteg ac er mod i yn credu fod magwraeth yn bwysicach na natur sylfaenol pobl ac anifeiliaid, nid oes unrhyw amheuaeth nad yw geneteg yn dylanwadu ar ein gweithredoedd. Y mae gwyddonwyr wedi profi fod gennynnau yn bodoli ar gyfer tuedd at ddrwgweithredu ac alcoholiaeth, yn ogystal a gennynnau ar gyfer lliw gwallt a maintioli ac yn y blaen. Ond y mae hi yn amlwg y gallwch ddewis sut ydech chi yn ymarweddu ond na fedrwch ddewis lliw eich llygaid na lliw eich gwallt er fe fedrwch, wrth gwrs, guddio y lliw hwnnw a lliw arall. Ond tybed a oes genyn ar gyfer bod yn greadigol? Fe ddadleuwn i fod gennyn o'r fath yn bod.Ystyriwch fy nheulu i yn unig, y mae gennyf - heb fy nghynnwys i fy hun - saith awdur cyhoeddedig neu arobryn allan o rhyw ddeg ar hugain o berthnasau agos. A hynny ar ddwy ochr y teulu. Ar yr wyneb, nid yw hynny yn profi fawr ddim heblaw uniad dau deulu o gyffelyb anian, wrth gwrs, ond gadewch inni ddilyn y trywydd yn bellach am ychydig.

Fel llawer o deuluoedd Sir Ddinbych, gallai fy nhad a fy mam hawlio un perthynas agnatic, hynny yw, er nad oedd fy mam a fy nhad yn perthyn i'w gilydd, yr oeddynt yn hannu o deuloedd a gychwynwyd gan ŵr o'r enw Hedd Molwynnog (ystyr y gair molwynnog, mae'n debyg, yw malwennaidd!), ymysg y lleiaf pwysig o sefydlwyr y pymtheg llwyth brenhinol sydd yn golygu hefyd ei fod ymysg disgynyddion mintai Cunedda Wledig. A disgynyddion eraill iddo yw Sion Tudur, Tudur Aled, Gruffydd Hiraethog, William Salesbury, William Morgan, Twm o'r Nant, Robert Roberts,Y Sgolor Mawr, a Gwilym Hiraethog i mi enwi dim ond rhai o'i ddisgynyddion amlycaf. A beth sydd gan y rhain yn gyffredin? Maent oll yn awduron ac yn wŷr dysgedig, hyd yn oed os yw Y Sgolor Mawr yn profi fod rhemp yn wir lle mae camp.

O ochr fy mam, gallaf hawlio carennydd â Chatrin o Ferain trwy briodas honno â theulu Gwydr a'u priodi hwythau,wedyn â theulu Coed Coch, teulu fy mam. Fe arferai fy nhad gellwair fod mwy o waed brenhinol Lloegr yng ngwythiennau fy mam nag yn rhai'r frenhines ei hun a chyda pheth rheswm dim ond inni i gyd gofio fod taid Catrin yn fab anghyfreithlon i frenin a bod treigliad y canrifoedd wedi pylu llawer ar lesni y gwaed. Ond ychydig iawn a soniai am ei deulu ei hun er fod y rheiny lawn cyn ddifyrred.Wrth reswm, roedd gan fy nhad broblem wrth drafod ei deulu; mae'n anodd iawn sôn sut y mae rhywun yn perthyn i'w gilydd mewn teulu a ymbriodai i'w gilydd mor gyson ag un fy nhad. Fe wn i am o leiaf ddwy briodas rhwng dau set o gefndryd a chyfnitherod llawn gwaed â'i gilydd ynddo, hynny yw, dau frawd a dwy chwaer yn priodi ei gilydd a'u plant hwythau yn priodi wedyn. A chredaf i mi esioes grybwyll fy hen daid a briododd deirgwaith i dair merch a oedd yn perthyn iddo fo ac i'w gilydd... dyma daid Elfed ap Nefydd Roberts, hefyd, ac er fod Elfed yn gefnder i'm tad ac yn gyfyrder i mi, oherwydd mynych briodi'r hen foi, mi rydwi hefyd yn rhyw fath o fodryb i Elfed ac i'm brodyr fy hun, petai'n dod i hynny... Bid a fo am hynny, roedd gan fy nhad reswm arall dros beidio a sôn am ei deulu, anwybodaeth amdanynt! I un mor anghydffurfiol a fy nain, testun cywilydd oedd perthyn i Robert Roberts a thestun cywilydd oedd bod yn briod â dyn a oedd yn ddisgynnydd i frawd Twm o'r Nant a thaw piau hi am berthnasau mor eglwysig!

Ond â'r Sgolor Mawr ydw i am orffen. Fe welwch hanes hwn yn y Bywgraffiadur ond fe allaf i ychwanegu olnodyn. Mae'n ffaith fod gan Robert Roberts siar mewn cloddfa aur, os ydw i yn cofio yn iawn, y mae hyd yn oed y Bywgraffiadur yn nodi hynny. Hyd y medraf i farnu, brawd neu ewythr i'm hendaid i oedd Robert Roberts ac, yn ei ewyllys, gadawodd ei eiddo i deulu hynaf fy hen daid, i blant y wraig gyntaf. Un o'r rheini oedd gŵr o'r enw Humphrey Roberts. Rwan, fe wyddai fy nhad am fodolaeth hwn ond nid oedd erioed wedi cyfarfod ag ef am fod hwnnw wedi gadael Gwytherin i weithio fel garddwr yn y De. Ond rai blynyddoedd ar ôl i'm tad ddod i Fachynlleth fe gyfarfu â Wmffre a oedd, erbyn hynny, yn arddwr yn Bow Street. Digon oer fu'r berthynas rhyngddynt, mae gennyf ofn. Maen tramgwydd teulu fy nhad oedd fy mam oherwydd nad oedd hi yn perthyn iddynt o gwbl - a na, nid yw rhannu cyndad pell, pell yn cyfrif! - ond fe welodd fy nhad gyfranddaliadau cloddfa aur yr hen Robert, a oedd, erbyn hynny wrth reswm, yn dda i ddim ac yn werth dim ond fel hanes ond nis cafodd.'Fe cei di nhw am fy nghladdu i' oedd cri Wmffra gan feddwl eu bod o ddifrif cystal ag arian. Ond diflannu fu hanes y cyfranddaliadau; pan ddaeth y dydd fe fu'n rhaid i'r teulu i gyd uno i'w gladdu, mae'n debyg...tybed a oes rhywun yn Bow Street heddiw yn cofio yr hen Wmffra o gwbl?

# Y BORTH



### Cymdeithas Gymraeg Y Borth

Ail gychwynodd y gymdeithas nos Fercher 9 Hydref yn Neuadd y Borth.

Ein Llywydd am eleni fydd y Parchg Cecilia Charles a hi oedd yng ngofal y noson. Cawsom dipyn o'i hanes yn tyfu i fyny yn Sir Benfro ac aeth a ni ar daith o un Ficerdy i'r llall. Diolchwyd yn gynnes i Cecilia gan y Parchg Richard Lewis a pharatowyd paned gan Margaret Griffiths a Llinos Evans.

Cafwyd dipyn o hwyl yn ein cyfarfod ar 13 Tachwedd pryd y daeth Nigel Hardy o Dre'r-ddôl atom i sôn am Ddawnsio Gwerin. Bu'n olrhain hanes y Dawnsio ers y cychwyn cyntaf hyd at heddiw - a chawsom ambell arddangosfa ganddo ef a chan rai o'r gynulleidfa!Diolchwyd iddo gan John Hughes a pharatowyd paned gan Mair Lewis. Edrychwn ymlaen i'n cyfarfod nesaf ar 11 Rhagfyr pryd y bydd Ieuan Ellis yn dod atom i sôn am a dangos hen luniau o'r Borth.

### Cymdeithas Henoed y Borth

Dechreuwyd y cyfarfod ar Hydref 17eg gydag ychydyg funudau o dawelwch wrth i ni gofio cyfaill cywir a chyd aelod – Ann Lewis – fu farw ar Hydref 12fed. Ar nodyn hapusach llongyfarchwyd Eveline ac Islwyn Jones ar ben blwydd 68 eu priodas. Yna croesawyd disgyblion a staff Ysgol Craig yr Wylfa fu'n ein diddanu gyda cherddoriaeth a barddoniaeth addas i dymor y cynhaeaf. Chwaraeodd Charlotte, Priya ac Anna eu ffliwtiau a Sam a Josh eu cornedau. Roedd yn brynhawn hyfryd – Diolch i bawb.

Y nein cyfarfod ar Hydref 3ain croesawyd Mr. Tom Brown o Fachynlleth ddaeth atom i siarad am gadw gwenyn. Daeth a pheth o'i fêl a diliau mêl i ni. Prynhawn boddhaol iawn a diddorol. .

Ar Ragfyr 5ed byddwn yn cael te Nadolig gwahanol gan y bydd hefyd yn 40fed pen blwydd ein Cymdeithas. Bydd te arbennig, cwis Nadolig a daw Miss Kathleen Jones – un o'n aelodau cartref – i gyfeilio i sesiwn fer o ganu carolau. Os ydych yn perthyn neu wedi body n perthyn i Gymdeithas Henoed y Borth neu os hoffech ymuno dewch draw erbyn 2.00.

Bydd y cinio Nadolig yn Llety Parc ar Ragfyr 12fed a'r ymweliad â'r pantomeim dydd Sadwrn Ionawr 11eg.

Am wybodaeth am y Gymdeithas cysylltwch â Betty ar 871135, Pat ar 822111 neu Joy ar 871649.

### Eglwys St. Matthew

Yn ein gwasanaeth Diolchgarwch ar Hydref 6ed buom yn ffodus iawn cael Mrs. Joyce Berryman i roi anerchiad wych. Diolchwn iddi am hyn a hefyd pawb oedd ewdi addurno yr eglwys mor hardd.

Bydd cyfnod prysur y Nadolig yn dechrau gyda Gwasanaeth Carolau y Goeden Nadolig fore Sul Rhagfyr 8fed am 11.15.

Gwahoddir yr holl grwpiau lleol i ddod a choeden fach a dewis carol. Gwerthfawrogwn pe gallech adael i aelod o'r eglwys wybod mewn da bryd os ydych am gymryd rhan a beth yw eich dewis o garol. Gobeithiwn gael eglwys lawn gyda choed a'u perchnogion.

Fore Sul Rhagfyr 15fed am 11.15 bydd plant yr Ysgol Sul yn cyflwyno Stori'r Geni mewn cerddoriaeth a chân. Gobeithiwn y gallwch fod yna i glywed y stori hyfryd.

Bydd Gwasanaeth Cymun Noswyl Nadolig am 11.30 y nos nos Fawrth Rhagfyr 24ain a bore'r Nadolig bydd gwasanaeth cymun am 10.30. Mae croeso cynnes i chi ymuno â ni yn y gwasanaethau hyn neu ar unrhyw Sul am 11.15 y bore.

Am wybodaeth am yr Eglwys St Matthew cysylltwch âr Ficer ar 871889, Margaret ar 871056 neu Joy ar 871649.

### Pen blwydd priodas

Llongyfarchiadau i Eveline ac Islwyn Jones, Wennol, a ddathlodd eu pen blwydd priodas ddydd Sul Hydref 6ed. Fe'u priodwyd yng Nghapel Hendre, ger Rhydaman 68 o flynyddoedd nôl. Ymwelodd Eveline â'i gŵr Islwyn yn Abermad, lle roedd ar y diwrnod a darparodd y cartref gacen hyfryd wedi ei haddurno a rannwyd gyda'r trigolion i gyd.



**FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN**

**Cyfarfod Blynyddol yn y Cartref nos Fawrth, 26 Tachwedd am 7 o'r gloch**

## TREFEURIG

### Diolch

Hoffai Gwenno Healy ddiolch i bawb am eu cyfraniadau hael tuag at yr elusen Childreach. Mae hi'n ei werthfawrogi'n fawr iawn. Dyma lun ohoni ar gopa Mynydd Kilimanjaro a gyda'r plant mewn Ysgol Gynradd ym Moshi lle bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio at achos da.



## llun y mis

**Llun arall o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-Garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**



**Storm fawr Aberystwyth 2 Tachwedd 2013**

## Colofn Enwau Lleol – Y Fuwch Wen

Meini hirion yw'r pwnc dan sylw yn y golofn y tro hwn, a chan ei bod hi'n fis Sul y Cofio, mae'n addas ein bod ni'n dechrau gyda'r garreg wen sy'n sefyll ar sgwâr Penrhyn-coch i goffáu'r rheini a gollwyd yn y ddau ryfel byd. Daethpwyd â'r garreg i'r sgwâr o Fanc Troedrhiwseiri; arferai sefyll ar fin y ffordd rhwng Pen-cwm a Bont-goch, a'r enw lleol arni oedd **Y Fuwch Wen**.



Ceir amryw o feini eraill gydag enwau cyffelyb yn yr ardal:

Ar fin y ffordd gefn sy'n arwain o Benrhyn-coch i Bonterwyd, y tu draw i Lyn Blaen Melindwr, saif dau faen llwyd, un ychydig yn fwy na'r llall, yn dwyn yr enw **Y Fuwch a'r Llo**. O edrych arnyn' nhw o gyfeiriad Ponterwyd, mi allech ddychmygu bod y mwyaf o'r ddau faen yn fuwch a'i phen ôl atoch ond yn troi ei phen yn ôl tua'r dde fel petai'n llyfu ei chefn.



Yn ei 'Plan of the Mannor of Perveth' (a luniwyd tua chanol y ddeunawfed ganrif), mae Lewis Morris yn cofnodi lle o'r enw **Maen Tarw** yn yr un cyffiniau â'r Fuwch a'r Llo (ar safle Castell-coch o bosibl), ond os oedd maen yno ar un adeg, nid yw'n ymddangos iddo oroesi.

Mae'r hynafiaethydd Edward Lhwyd (*Parochialia* iii. 40) yn cyfeirio at Garnau Pumlumon ar y ffin rhwng Ceredigion a sir Drefaldwyn, ac yn eu henwi fel **Y Fuwch Wen a'r Llo** a'r **Fuwch Grownig** ('corniog' efallai?). Ceir cadarnhad o leoliad Y Fuwch Wen a'r Llo ar fap 6" yr Arolwg Ordnans heb fod ymhell o darddle Afon Hafren, ond nid yw lleoliad yr ail yn hysbys.

O edrych yn ehangach ar draws Cymru, ceir enghreifftiau pellach o feini hirion wedi ei henwi mewn modd tebyg:

Yn *The Cambrian Quarterly Magazine and Celtic Repertory* (1829, i. 38) cyfeirir at yr **Hwch a'i Pherchyll**, maen gyda nifer o feini llai o'i amgylch, yn Llanwnnog, sir Drefaldwyn;

Mae Richard Fenton yn ei gyfrol *Tours of Wales* (1804-13) (335) yn sôn am '**Kesig Aled**, two grey stones by Llyn Aled' ar Fynydd Hiraethog, sir Ddinbych;

Ac mewn adroddiad ym mhapur newydd *Seren Cymru* (**www.papuraunewyddcymru.llgc.org.uk**) ar 11 Hydref 1878, ceir hanes llongddrylliad y Charlotte ar graig **Y Fuwch a'r Llo** ger Abergwaun yn sir Benfro.

Gellid dadlau i'r meini hyn dderbyn eu henwau oherwydd eu tebygrwydd ymddangosiadol i'r anifeiliaid dan sylw. Tybed, fodd bynnag, ai mewn modd cellweirus y rhoddwyd yr enw **Bishop and his Clerks** i glwstwr o ynysoedd bychain a chreigiau ar arfordir sir Benfro?

Os gwyddoch am feini hirion eraill sydd ag enwau diddorol, cofiwch roi gwybod.

**Angharad Fychan**

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

# BOW STREET

Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00
Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/

**Tachwedd**
24 Terry Edwards

**Rhagfyr**
1 Noddfa Walford Gealy
8 John Roberts Bugail (Cymun)
15 Oedfa'r ofalaeth
22 Lyndon Lloyd Bugail
29 Andras Iago




**Cyflwynwyd siec gan aelodau Clwb CIC i Gronfa Heti ar Hydref 10. Gwelir Lisa Davies, mam-gu Heti yn ei derbyn.**

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhun Gwynedd ap Rhobert a Magda ar enedigaeth Elis Gwynedd ap Robert ar 26 Hydref yng Nghaerdydd. Y 19eg wyr/wyres i Felicity Roberts.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Valerie a Gwynfor Davies, Nicola a'r teulu, Manteg ar golli chwaer Valerie yn frawychus o sydyn yn ddiweddar.

## Merched Y Wawr Rhydypennau

Ar nos Lun, 14eg o Hydref, aeth yr aelodau i ymweld â'r Cynulliad yn Aberystwyth. Cafwyd croeso cynnes gan Deian Creunant i'r adeilad cyn iddo ein tywys ni trwy gyflwyniad ar hanes y Cynulliad ers ei agor yn 2009.

Cawsom wybod am y gwahanol adrannau sydd, erbyn hyn, wedi ymgartrefu yn yr adeilad, sef amaethyddiaeth, amgueddfeydd a llyfrgelloedd ac ers mis Ebrill eleni Cyfoeth Naturiol Cymru. Nodwyd bod siop goffi 'Y Bont' ar agor i'r cyhoedd lle gall unrhyw un alw heibio am sgwrs gyda staff y Cynulliad. Braf oedd gweld bod y gwahanol ystafelloedd wedi'u henwi ar ôl ardaloedd lleol.

Gorffennwyd y cyflwyniad gyda chwis a'r aelodau yn derbyn bagiau am oes a chyfle i gael tynnu eu lluniau gyda Thlws Gwobrau Dewi Sant. Da nodi bod sawl aelod yn y gangen yn ffotogenig.

Diolchodd ein llywydd, Marian Beech Hughes, i Deian am ei gyflwyniad a'r croeso i'r adeilad.

Yna, ymlaen a ni i orffen y noswaith yng Ng westy Llety Parc gyda phaned ac amrywiaeth o gacennau a baratowyd gan y staff ac, wrth gwrs, y cyfle i gymdeithasu. Enillydd raffl mis Medi oedd Annetta Morgans.



**Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Allan Jones a Luningning Pasiona Pida "Lou", Derlwyn, Y Lôn Groes, ar eu priodas yn Aberystwyth ar 12 Hydref.**

## Diolch

Dymuna Gwynfor a Valerie Davies, Manteg, ddiolch yn ddiffuant i bawb am y cardiau, blodau, ac ymweliadau a hwy yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar.

Hefyd am y dymuniadau da, a'r ymweliadau a hwy yn ystod eu cyfnod yn yr ysbytu mis ddiwethaf. Diolch i chi i gyd.

## Pen blwydd

Dymuniadau gorau i Gwawr Keyworth, Dernol, a ddaethlodd ben blwydd yn 18 oed dydd Mercher 30 Hydref.

## Cymdeithas y Chwiorydd, Capel y Garn

Dydd Mercher, Tachwedd 6ed, cynhaliwyd ein cyfarfod misol yn y festri. Elina Davies agorodd y cyfarfod gydag emyn a gweddi.

Yna rhoddodd Shan Hayward sgwrs ar hanes ei chartref, Rhydhir. Dangosodd bod yr enw Rhydhir yn mynd yn ôl yn bell iawn - tuag wyth canrif - mewn dogfennau, a soniodd am y pethau diddorol roedden nhw wedi dod o hyn iddyn nhw wrth fynd ati i addasu'r tŷ at ofynion heddiw. Chwiorydd Llandre oedd wedi paratoi'r te.

## Pen blwydd hapus

Dymuniadau gorau i Alun Morgan, Garn Rhos, a ddathlodd ei ben-blwydd yn ddeunaw ar Dachwedd 15. Mae Alun yn gweithio yn y siop fwtsiar yn Bow Street.

## Brysia wella!

Gobeithio fod Ifor Morgan, Garn Rhos, yn gwella ar ôl ei ddamwain.

## Zoe Jones

Dechreuodd Zoe Jones ar ei swydd fel Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid,



Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion ar 11 Tachwedd. Daw Zoe o Gricieth ac roedd yn ddirprwy bennaeth Coleg y Bala cyn cael y swydd. Croeso cynnes iddi; dymuniadau gorau a phob bendith gyda'r gwaith. Meddai Zoe "Rwyf wedi bod yn byw yn Aberystwyth am wythnos erbyn hyn a dwi mor ddiolchgar am y croeso cynnes rwyf wedi'i gael. Mae pawb wedi gwneud i mi deimlo'n gartrefol iawn. Rwyf wedi bod yn edrych mlaen i ddechrau'r swydd newydd yma, dwi wir yn edrych ymlaen i weld beth yw cynlluniau Duw ar gyfer yr ardal. Fy her gyda'r gwaith yw i'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd i ddod i weld a phrofi beth ydi gwir berthynas gyda ein Harglwydd a'n Gwaredwr. Os oes unrhyw beth allai'ch helpu yn eich capeli, clybiau plant/Ieuenctid neu ysgolion mae croeso i chi gysylltu â mi."

# Adolygiad

Ceiriog Gwynne Evans
*Never Again... No Bloody Fear!* Y Lolfa 304t £9.95

Cyhoeddodd Ceiriog Gwynne Evans ei lyfr cyntaf, *Once Upon a Time in Goginan*, yn 2009. Yn hwnnw mae'n sôn am am y cynnwrf a deimlai wrth edrych i lawr dyffryn Melindwr at Aberystwyth - y Mecca! Mae'n debyg mai'r wefr o weld un o berfformiadau blynyddol Ysgol Ardwyn o operetta gan Gilbert a Sullivan a wnaeth Aberystwyth mor ddeniadol iddo; ond roedd ei fagwraeth mewn teulu o gerddorion nodedig wedi dihuno ei gariad at gerddoriaeth ymhell cyn hynny. Bu ei ymwneud â cherddoriaeth yn gynhaliaeth iddo gydol ei amser yn Ysgol Ardwyn ac yng Ngholeg Aberystwyth, lle graddiodd mewn daeryddiaeth.

Ar ôl cymhwyso aeth, fel llu o'i gyfoedion, yn athro i Lundain. Cyn pen dim roedd wedi ymdaflu i waith allgwricwlaidd cynhyrchu dramâu a sioeau cerdd, ymdrechion cymdeithasol-ddiwylliannol gwirfoddol tebyg iawn i'r hyn a welodd, ac a elwodd oddi arnynt debyg iawn, yn ei ieuenctid yng Ngoginan. Yr ymdrechion yma yw testun ei ail lyfr *Never Again...*

Mae llwyfanu drama neu gyngerdd amatur yn gofyn egni a dyfeisgarwch dibendraw. Rhaid bod yn barod i wneud popeth yn ôl yr angen – creu ac addasu geiriau a cherddoriaeth, cynhyrchu actorion ac arwain corau, adeiladu a phaentio setiau, ac ymdopi â'r problemau anochel sy'n codi. Bu'r awdur wrthi am gryn hanner can mlynedd yn cyflawni hyn i gyd, yn creu ac yn arwain tîmau i gyflawni rhyfeddodau. Mae'r llyfr yn llawn straeon bywiog am ei brofiadau, a'r teitl yn adlewyrchu'r straen a'r tensiwn a'r rhyddhad anferth o gael popeth yn dod i fwcwl ar y funud olaf.

Tyfodd Gwynne yn gynhyrchydd-gyfarwyddwr amatur uchel ei fri. Mae cerdd ei gydweithiwr Elfed Owens iddo ar ei ymddeoliad yn dweud llawer am ei ymroddiad a pharch ei gydweithwyr ato.

Yn Saesneg yr ysgrifennodd y llyfr; yn Lloegr y cyflawnodd ei waith. Ond yng ngogledd Ceredigion y cafodd y doniau a'r ysfa ddiwylliannol i weithio hyd y bôn er lles ei gymdeithas, dyna lle gwelodd gyntaf y modelau rôl a ddangosodd y llwybr iddo. Mae'r clymau personol rhyngddo a phobl Goginan yn dal yn gryf fel y dangosodd eu cefnogaeth yn y lawnsiad yn Waterstone Aberystwyth ym mis Hydref eleni.

**Llinos Dafis**

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL
A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd,
Estyniadau,
Gwaith Carreg,
Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

## MADOG

**Oedfaon Madog 2.00**

**Tachwedd**
24 Terry Edwards

**Rhagfyr**
1 Bugail
8 John Roberts
15 Oedfa'r ofalaeth
22 Lyndon Lloyd
29 Andras Iago

### Teulu dawnus

Roedd gan Angharad Rowlands ddiddordeb mawr yn seremoni BAFTAS Cymru yn ddiweddar. Enwebwyd dau gefnder iddi am wobrau – Mei Williams a Rhodri Meilir.

Mae Rhodri Meilir yn fab i chwaer Aldwyth ac fe'i enwebwyd am yr actor gorau yn y rhaglen Gwlad yr Astra Gwyn. Mae Mei Williams yn fab i Ann (cyfnither Tegwyn). Enillodd Mei wobr am y Cyfarwyddwr Ffeithiol gorau a'r Ffotograffiaeth Ffeithiol gorau am y rhaglen 'Fy chwaer a Fi. Roedd wedi ei henwebu fel y rhaglen ddogfen orau. Gwobrwywyd hi fel y Ffilm orau yng Ngwobrau Celtaidd Teledu a Ffilm a derbyniodd hefyd y fedal aur yng Ngŵyl Efrog Newydd a Gwobrau Rhyngwladol a daeth ymysg y tri uchaf yng Ngwobrau Teledu Breninol yn UDA. Fe'i welwyd hefyd yn gweithio ar gyfres y Plas yn ddiweddar.

### Cyfarfod Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch Capel Madog nos Fercher y 30ain o Hydref. Y Parchg Wyn Morris, ein Gweinidog, a arweiniodd y Gwasanaeth a chyflwynodd ein Pregethwr gwadd, sef Miss Beti Grffiths, Llanilar, yn gynnes iawn atom. Cawsom ganddi bregeth amserol iawn. Braf oedd cael croesawu aelodau o eglwysi eraill a ymunodd â ni i roi diolch. Yr organyddes oedd Angharad Rowlands, Talar Deg.

Addurnwyd y capel gan Margaret Hughes, Gwarcwm Hen, ac Aldwyth Lewis, Rhos-goch.

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Mae dechrau tymor newydd y Cynulliad Cenedlaethol yn sicr wedi bod yn gofiadwy – ond nid o reidrwydd am y rhesymau cywir! Sôn wyf i, wrth gwrs, am y ddwy ergyd i Geredigion sydd wedi hoelio fy sylw i a'r Cynulliad. I ddechrau, cyhoeddiad Arriva fod y cwmni am atal ei wasanaethau bws ym mis Rhagfyr, ac yna trafferthion Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Gan ddechrau gydag iechyd, waeth beth fo 'sbin' Bwrdd Hywel Dda, mae'n ddigon amlwg fod yna broblemau gyda'r modd y mae'r Bwrdd yn cael ei weinyddu. Prinder staff oedd yr esgus am dorri'r nifer o welyau ym Mron-glais, a pharatoi at y gaeaf oedd y rheswm a roddasant dros ohirio llawdriniaeth orthopaedig. Ond siawns nad ydy newid y tymhorau yn dod fel syndod iddynt, ac hefyd mae digon o straeon am arafwch yn y broses recriwtio nyrsys sy'n arwain rhywun i amau mai gwendidau rheoli sydd ar fai. Mae'n annerbyniol y bydd llawfeddygon nawr yn segur dros y gaeaf tra fod pobl mewn poen yn disgwyl am eu triniaeth. Rwyf wedi galw am ymchwiliad llawn i weinyddiaeth y Bwrdd, a byddaf yn parhau i bwyso ar y Llywodraeth i gael atebion.


O ran bysiau, rwy'n gwybod fod llawer o waith caled yn digwydd y tu ôl i'r llenni i sicrhau y bydd cwmnïau lleol yn medru camu i'r bwlch lle bu gwasanaethau Arriva. Mae'r gwasanaethau yma yn hanfodol wrth gwrs i nifer o ardaloedd yng Ngheredigion, ac yn gyswllt pwysig gyda'r rhwydwaith drafnidiaeth ehangach. Cefais sawl cyfarfod ar y mater gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth ac aelodau o'r Cyngor Sir. Mae angen rhywfaint o gymorthdal i sicrhau fod y gwasanaethau yn parhau ar ddiwedd Rhagfyr, ond yn y tymor hir mae cyfle yma i gael rhwydwaith fysiau mwy strategol a threfnus.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, hoffwn ddiolch i'r busnesau ymatebodd i'm holiadur ar gyflwr y diwydiant twristiaeth. Ymddengys fod 2013 wedi bod yn flwyddyn dda ar y cyfan, ond mae mwy y gallwn ei wneud i hybu Ceredigion. Roedd yn bleser gwahodd rhai cannoedd o bobl i'r ardal yn sgîl cynhadledd Plaid Cymru ar ddechrau Hydref, ac edrychaf ymlaen at gyfres newydd Y Gwyll ar S4C yn dangos Ceredigion i'r byd.

# Taith gerdded y mis

## Bro Dafydd

**Man dechrau**: Lle mae'r ffordd yn lledaenu uwchben Y Cwrt
**Map**: Explorer 213. GR 687848
**Pellter**: 3.75 milltir hawdd




O'r man parcio ewch lawr y ffordd a throi i'r chwith, ac ar ôl tua chwarter milltir troi i'r dde croesi'r bontbren ac ymlaen dros sticl dros y ffordd a dros sticl arall ac i fyny'r cae nes cyrraedd y ffordd i bentref Salem. Ewch drwy'r pentref ac i feidr Coed Gruffydd am ryw ddau gan llath ac fe welwch iet ar y chwith yn eich arwain i hen ffordd. Ymlaen ar ei hyd a thros sticl ar y dde, lawr y cae a'r coed, dros yr afon ac i fyny i'r ffordd. Cerddwch i'r chwith a dod i Brogynin a chofeb Dafydd ap Gwilym. Trowch yn ôl dros y bont ac ewch ar lwybr a fydd yn eich arwain 'nôl heibio Tynpynfarch i'r man dechrau.

**Rees Thomas**

## Tymor y Nadolig yng Nghapel y Garn

**Tachwedd 30** · 10–12 y bore
Paned a Chroeso ar drothwy'r Adfent. Byddwn yn derbyn rhoddion o fwyd at Fanc Bwyd Stordy'r Jiwbilî. Elw'r bore i'w rannu rhwng Capel y Garn a'r Banc Bwyd

**Rhagfyr 4** · 2.30 y pnawn
Gweithgareddau Nadoligaidd yng nghwmni Mair a Rhian Benjamin. Te i ddilyn yng nghwmni Cymdeithas y Chwiorydd

**Rhagfyr 12** · 7 yr hwyr
Gwasanaeth Nadolig Ysgol Rhydypennau

**Rhagfyr 13** · 7.30 yr hwyr
Dathlu'r Nadolig gyda Trefor ac Eleri yng nghwmni Cymdeithas Lenyddol y Garn

**Rhagfyr 15** · 10 y bore
Oedfa Nadolig plant ysgolion Sul Noddfa a'r Garn yng nghapel Noddfa

**Rhagfyr 22** · 5 yr hwyr
Oedfa arbennig 'Naws y Nadolig'

**Rhagfyr 25** · 9 y bore
Oedfa gymun deuluol fore'r Nadolig

**Rhagfyr 31** · 11.30 yr hwyr
Oedfa Nos Galan

*Croeso cynnes i bawb*



ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

ytincer@googlemail.com

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Torri Gwrych a Strimmio, Disgownt i Bensiynwyr.
Ffôn 01974 261758
07792457816
(Nid oes yr un gwaith yn ormod)

# LLANDRE

### Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

Yng nghyfarfod mis Hydref o gangen Merched y Wawr Genau'r-glyn croesawodd y Llywydd Eryl a Gwynfryn Evans sy'n byw yn lleol yn y Ddôl atom i sôn am eu taith hynod ddiddorol i wlad Bhutan ym mynyddoedd yr Himalayas. Cawsom wybod, gyda chymorth sleidiau, mai trwy gysylltiad ffrind ysgol i Eryl y bu iddynt ymweld â'r wlad. Cafwyd cip ar ddiwylliant cwbl wahanol sy'n bodoli mewn gwlad fechan sy'n gorwedd rhwng China ac India. Diolchodd y Llywydd iddynt nid yn unig am fodloni dod atom i'n diddanu ond am eu cefnogaeth ymhob agwedd o ddiwylliant yn yr ardal yma. Gwynfryn hefyd enillodd y raffl.

Llongyfarchodd y Llywydd Linda Jones, Y Berllan, ar ddod yn Nain i efeilliaid yn ddiweddar , ganwyd dau fab bach i Meleri a'i gŵr. Hefyd llongyfarchwyd Rhian - merch Mair England yr ysgrifennydd - ar ddyweddïo yn ddiweddar a dymunwyd gwellhad buan i Mr. Glyn Williams, tad Mair, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y cyd gyda'r Banc Bro leol ar Nos Wener, 29ain o Dachwedd. Enw'r noson fydd Cracer Nadolig, pryd bydd cyfle i gael sgwrs, prynu nwyddau Nadolig a chael paned a Mins Pei.

### Cydymdeimlad

Trist oedd cofnodi marwolaeth Randall Evans Enoch OBE, Glyn Teg, fu farw yn Formby yn dawel yng nghwmni ei deulu. Fe'i ganwyd yn Aberystwyth a'i fagu yn Llanfihangel Genau'r-glyn. Fe;i addysgwyd yn Ysgol gynradd y Borth , St. Edmund's School, Caergaint, Coleg Dewi Sant, Llanbnedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Ar ól dysgu yn Swydd Buckingham am 25 mlynedd daeth yn Brifathro Ysgol Uwchradd St. Margaret's, Aigburth, Lerpwl. Ym 1994 cafodd yr OBE am ei wasanaeth i addysg. Ar ei ymddeoliad daeth yn aelod o Fwrdd Rheoli Prifysgol Hope, Lerpwl – ac yn dilyn hynny fel Is-Gadeirydd. Bu'n ddewisydd Esgob am 15 mlynedd ac roedd yn ddarlenydd trwyddiedig yn Eglwys St. Peter's, Formby. Cadwodd gysylltiad â Llandre gan iddo gadw cartref yno; cyhoeddodd ddau lyfr ar hanes yr eglsy / pentref a bu yn Gadeirydd Grŵp Treftadaeth Llandre (2002-2012) . Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda'i weddw Wendy ac â'r teulu i gyd.

Cydymdeimlwn hefyd â Rose Billington, Llys Dyfed a'r teulu, ar farwolaeth ei gŵr Alan Graham mis diwethaf.

### Clwb 50 Banc Bro

**Enillwyr mis Tachwedd**
1. £30 - Gruffydd Aled Williams, Dolau
2. £20 - Lynwen a Richard Evans, Llawr y Glyn
3. £10 - Annette Williamson, Coed Gruffydd

### Symud tŷ

Dymuniadau gorau i Helen Jones, Pantydderwen, sydd wedi symud i Lambed.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Jimmy a Joules Hamond, Penpompren, ar enedigaeth merch - Aisla Medi - yn ddiweddar. Hefyd i Graham a Sue Summers, Bodwylan, ar ddod yn fam-gu a thad-cu; ganwyd mab, Jacob Collin Hillman i Mathew a Caitlyn.

### Treftadaeth Llandre

29 Tachwedd - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Cynhelir cyfarfodydd yn Ysgoldy Bethlehem am 7.30 yh.

### Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Meinir Edwards, Llandre – hyfforddydd Parti'r Greal a ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth Parti Gwerin yn yr Ŵyl Gerdd Dant.

# DÔL-Y-BONT

### Diolchgarwch

Pnawn Sul, 27 Hydref, cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch Capel y Babell. Roedd yr oedfa yng ngofal y Gweinidog y Parchg Wyn Rh. Morris.

### Adferiad buan

Dymunwn arferiad buan i Mair Evans, Pantydwn, sydd wedi treulio peth amser yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch adref yn fuan.

Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel
Beth am archebu eich Parti Dolig gyda ni !
Bwyd Da . . .
Cwmni Da . . .
Talybont, Aberystwyth
01970 832 555
gwestyllewdu.com

ytincer@googlemail.com

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Cam wrth Gam
hyfforddiant blynyddoedd cynnar

Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?

Dyma gyfle gwych ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** yn y gweithle.

**Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015.**

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: post@camwrthgam.co.uk

neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan:

**www.camwrthgam.co.uk**

**Dyddiad cau: 24 Ionawr, 2014**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Chwaraeon

Bydd rhai ohonoch wedi sylwi ar ddyfarnwr Rygbi o Gomins-coch ar y teledu yn ddiweddar. Mae Ieuan Andrew Davies sy'n gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol ac yn frodor o Benrhyn-coch, wedi cyrraedd y brig yn dyfarnu Llanelli yn erbyn Aberafan bythefnos yn ôl, ac roedd yn ddarllediad byw ar S4C. Wythnos yn ddiweddarach roedd yn ddyfarnwr cynorthwyol i Alain Roland o Iwerddon, ar gyfer y Sgarlets ac Ulster, eto yn fyw ar S4C. Roedd Dewi Philips, hefyd o Aberystwyth ac yn gweithio i'r Brifysgol, yn rhan o'r tîm dyfarnu y noson, ac mae yntau yn dyfarnu ar lefel rhanbarthol ieuenctid Cymru. Mae y ddau yn aelodau o Gymdeithas Dyfarnwyr Canolbarth Cymru, yn ogystal a dros ugain o ddyfarnwyr hen ac ifanc! 'Mae'n fraint i'r Gymdeithas i weld Andrew yn cyrraedd y lefel uchaf o ddyfarnu yng Nghymru, ac yn rhoi hwb mawr i eraill ei weld yn cael llwyddiant a chanmoliaeth ar S4C", meddai Dafydd Pugh Jones, Capel Dewi, sy'n Llywydd y Gymdeithas, a hefyd yn Lywydd Cymdeithas Dyfarnwyr Cymru gyfan eleni. 'Mae dros ugain o ddyfarnwyr yn y Canolbarth, sy'n sicrhau fod gêmau rygbi yn gallu digwydd bron pob dydd o'r wythnos ar bob lefel. Gwirfoddolwyr ydynt i gyd, yn cynnwys Andrew a Dewi, sy'n golygu amser i ymarfer a theithio ledled Cymru. Ein dywediad ni i atgoffa pawb yw - Dim Ref, Dim gêm! Ymunwch â ni!"



**Marathon Eryri**

Dechreuwyd cynnal Marathon Eryri ym 1982; fe'i cynhaliwyd fel ras oedd mor wahanol i'r llu rasus trefi a dinasoedd ddaeth yn boblogaidd. Mae llwybr y ras yn hynod drawiadol ac yn cylchynu'r Wyddfa. Daeth y digwyddiad blynyddol yn ffefryn yn nyddiadur llu o redwyr; cynhaliwyd un eleni ar 26 Hydref. Dyma ddau fu yn rhedeg.
James Thomas, Bow Street, wedi cwblhau Marathon Eryri mewn 3 awr 8 munud
Un arall fu'n rhedeg oedd Matthew Martin, Ger-y-llan a gododd £320 tuag at Tŷ Hafan a £250 i Apêl Elain. Hoffai ddiolch yn fawr iawn i bawb a'i noddodd. Mae'r ddwy gronfa yn dal ar agor mae modd cyfrannu ar y we i Just Giving **www.justgiving.com/matthewmartin13** a gellir rhoi cyfraniadau i Apel Elain i Matthew neu Sioned.





# Canlyniadau Pêl-Droed Penrhyn-Coch

**Tim Cyntaf Penrhyn-coch**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12/10/13 | Treffynnon | 3-0 | Penrhyn-coch (Cwpan Cymru) |
| 19/10/13 | Pen-y-cae | 2-0 | Penrhyn-coch (Cynghrair) |
| 22/10/13 | Penrhyn-coch | 1-1 | Rhaeadr (Cynghrair) |
| 29/10/13 | Penrhyn-coch | 0-2 | Hotspurs Caergybi (Cwpan Cynghrair) |
| 02/11/13 | Rhyd-y-mwyn | 3-0 | Penrhyn-coch (Cynghrair) |
| 09/11/13 | Hotspurs Caergybi | 5-5 | Penrhyn-coch (Cynghrair) |

**Eilyddion Penrhyn-coch**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12/10/13 | Penrhyn-coch Eilyddion | 2-1 | Aberdyfi (Cynghrair) |
| 19/10/13 | Padarn Utd | 1-0 | Eilyddion Penrhyn-coch (Cwpan Len & Julie) |
| 09/11/13 | Llansantffraid | 1-5 | Eilyddion Penrhyn-coch (Cwpan Emrys Morgan) |

**3ydd Tim Penrhyn-coch**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16/10/13 | 3ydd Tîm Penrhyn-coch | 1-5 | Eilyddion Y Borth (Cynghrair) |
| 19/10/13 | Eilyddion Aberdyfi | 4-1 | 3ydd Tim Penrhyn-coch (Cynghrair) |

**Menywod Penrhyn-coch**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 03/11/13 | Crannog | 4 - 2 | Penrhyn-coch |
| 27/10/13 | Penrhyn-coch | 2 - 2 | Prifysgol Aberystwyth |
| 20/10/13 | Penrhyn-coch | 1 - 2 | Felin-fach |

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

Cristnogaeth 21 yn Morlan (7.30, 13 Tachwedd) – Byw'r Cwestiynau

Gŵyl Lyfrau Morlan (15-16 Tachwedd) – yn cynnwys Parti Dathlu Rala Rwdins a sesiynau gyda Dafydd John Pritchard, Francesca Rhydderch, Eigra Lewis Roberts a Hywel Gwynfryn

Gwin a Chaws i Gân a Cherdd (7.30, 20 Tachwedd. Tocynnau: £10

Pridd (7.30, 23 Tachwedd). Theatr Genedlaethol Cymru. Tocynnau: £9/£7

Manylion llawn ar wefan Morlan: www.morlan.org.uk
01970-617996; morlan.aber@gmail.com
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23

**CROESO CYNNES I BAWB!**

## Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 31 Hydref yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng. Dewi James. Croesawyd y Cyng. Sharon King, Elgar i'w chyfarfod cyntaf fel aelod newydd. Nid oes unrhyw arwydd fod y cwtero ar faes chwarae Tregerddan yn cychwyn er bod addewid wedi ei roi fisoedd yn ôl. Gan na allodd y Cyng. Paul Hinge gael unrhyw ateb o wahanol adrannau o'r Brifysgol, y mae wedi cysylltu â'r Is-Ganghellor i geisio cael y wybodaeth briodol o adran yr ystadau. Mae dŵr hefyd yn gorlifo ar hyn o bryd i Gartref Tregerddan. Problem arall yw bod perchnogion cŵn yn gadael carthion yr anifeiliaid ar hyd y maes. Penderfynwyd gofyn eto i Rheidol Garden Services i edrych ar ôl y meysydd chwarae, gan fod y gwaith â wnaed eleni yn foddhaol iawn.

Mae rhai o drigolion o ystad Mae Afallen wedi sylwi y dylai maes chwarae fod wedi ei ddarparu ar gornel isaf yr ystad. Hyn wedi dod i'r golwg ar weithredoedd eu tai. Gan fod perchnogaeth y tir wedi newid sawl gwaith, ac o bosibl busnesau wedi peidio a bod, bydd yn rhaid chwilio allan pwy biau'r tir cyn symud ymlaen.

Mae'r Cyngor yn dal i ddisgwyl cyflenwad o feinciau newydd, a bydd y clerc yn gwneud ymholiadau am grantiau unwaith eto parthed cael offer i'r meysydd chwarae.

Ni ddaeth unrhyw gais cynllunio i law ond adroddodd y clerc iddo fynychu cyfarfod o Ymgynghoriad Cyhoeddus parthed datblygiad arfaethedig tai fforddiadwy ger Cae'r Odyn. Nid yw'r cais cynllunio hyd eto wedi dod i law, ond deallir bod cynllun ar gyfer 2 o dai ganddynt. Bydd y cyngor yn cyflwyno cais am roddi blaenoriaeth i bobl lleol, a bod tendrau adeiladwyr lleol yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth ganddynt.

Mae angen sylw ar bont yr afon Ceiro, ger Bryngwyn Canol, hefyd y goleuadau nad ydynt yn goleuo ym Mryncastell.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 28 Tachwedd, a hwn fydd cyfarfod olaf y flwyddyn 2013.

## Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Mae Clwb Ffermwyr Ieuanc Tal-y-bont wedi cyrraedd 60 oed gan ddangos ei gryfder trwy groesawu y Rali nôl i fferm Berthlwyd eleni. Cychwynodd y clwb ym 1953 ac mae wedi ennill y Rali sir 7 gwaith.
Cynhaliwyd diwrnod maes y sir eleni yn IBERS Gogerddan ar ddydd Sadwrn 28ain o Fedi.Bu'r canlynol yn llwyddiannus:


**Barnu stoc**
Tîm dan 14 oed Tal-y-bont 1af
Tîm dan 18 oed Tal-y-bont 5ed
Tîm dan 26 oed Tal-y-bont 4ydd

**Cystadleuaeth sialens ATV**
Rhys Richards a Richard John 1af
Cynhelir noson o bigion yr Eisteddfod Sir yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7:30 o'r gloch ar nos Iau yr 21ain o Dachwedd. Dewch yn llu i ddathlu gyda ni!.
Mae cinio dathlu 60 mlynedd y clwb yng Ngwesty y Marine, Aberystwyth, nos Sadwrn, Tachwedd 23ain lle bydd gwledd o fwyd, a Llywydd y noson fydd Dai Jones, Llanilar. Mae croeso i bawb sy'n dymuno i ymuno efo ni i ddathlu'r garreg filltir bwysig hon.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Urdd y Benywod

Dave Roberts, Rheidol View, oedd ein siaradwr gwadd yn y cyfarfod mis Tachwedd. Treuliodd Dave flwyddyn yn gwarchod teulu April Jones ym Machynlleth a chawsom olwg ar ei fywyd ef a'r teulu yn ystod yr amser trist yma. Diolchodd Jill Fathers yn fawr iawn iddo am rannu ei brofiadau gyda ni. Diolch I Sarah Dyer, Llain, am y gwobrau raffl hyfryd ac i Olwen Fowler a Jill am baratoi y te.



**Caseg Dafydd a Sian Morris, Neuadd Parc, Friars Still my Sunshine, yn y Cylch yn Sioe Geffylau y Flwyddyn yn yr NEC yn Birmingham. Llongyfarchiadau mawr iddynt, mi 'roedd yn ddiwrnod i'w gofio ac i'w drysori am byth.**

ytincer@googlemail.com

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Oedfaon Capel Pen-llwyn**
**Tach**
24 Parch Judith Morris 5.00
**Rhag**
1 Bugail. Oedfa Gymun 10.00
8 Dr Terry Edwards 5.00
15 Oedfa Nadolig Plant yr Ofalaeth, yn y Garn 10.00
22 Oedfa Nadolig Ysgol Sul Pen-llwyn 11.00
29 Bugail 10.00

## Dyrchafiad

Mae Liz a Mike Collison, Dolcniw, wrth eu boddau, fod Luke eu mab wedi cael dyrchafiad yn ddiweddar. Mae Luke wedi bod yn blismon ("cadet") yn y "Met" ers pan oedd yn 17 oed, ac wyth ar hugain o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae wedi ei ddyrchafu i Brif Arolygydd yn Swydd Essex. Mae Luke a Clare yn byw yn agos i Chelmsford, ac yn daid a nain ers mis Tachwedd i Romany Tianna. Llongyfarchiadau mawr iddynt fel teulu, ac i Liz a Mike ar eu gorwyres fach, a phob dymuniad da i Luke yn ei rôl newydd.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Mr a Mrs Mike a Dilwen Over, Eirianfa, Blaengeuffordd. Bu farw efaill Dilwen yn ddisymwyth iawn ar y 9fed o Hydref, yn ddim ond 58 mlwydd oed, sef Mrs Davina Davies, Rhydyfelin. 'Roedd yn wraig, mam, chwaer, mam yng nghyfraith, a mam-gu gariadus iawn i'w theulu oll.

Cynhaliwyd ei hangladd yn eglwys Llanbadarn ar y deunawfed o Hydref. Dywedwyd yn ei theyrndegau ei bod yn berson hapus, siriol a direidis iawn, ac nid oedd dim a hoffai yn fwy, na difyrru ei theulu a'i ffrindiau, yn ei chartref, yn aml. Bydd bwlch mawr ar ei hôl.

Cofiwn am Dilwen yn ei hiraeth mawr, hithau a Davina wedi cael eu dwyn lan ym Mlaengeuffordd yn efeilliaid i'r diweddar Dai a Florrie James. Eirianfa. Cofiwn yn ogystal am ei chwiorydd eraill sef Eira, a Valerie a'u teuluoedd.

## Brysiwch wella

Dymuniadau da i Mrs Anne Edwards Hyfrydle a fu am driniaeth ar ei llaw a gwellhad buan i Mr Gwyn Edwards a fydd yn mynd i'r ysbyty cyn diwedd y mis.

## Y Teulu Evans yn Fuddugol

Llongyfarchiadau mawr i deulu Cwmwythig am ennill y safle gyntaf yng Ngwobrau Ffermio Prydeinig 2013 yn y categori Fferm Deuluol y Flwyddyn.

Aeth Mr a Mrs Evans,ar ran y teulu i Gaerwrangon ddechrau mis Tachwedd, i dderbyn y plac haeddianol.

Lansiwyd y gystadleuaeth gan y *Farmers Guardian* i ddathlu meddylfryd creadigol a gwaith caled didostur ffermwyr drwy'r wlad. Dywedodd y beirniaid fod yr ymgeiswyr i gyd o safon uchel ym mhob un o'r naw categori, a theulu Cwmwythig a ddaeth i'r brig yn y categori "Teulu y Flwyddyn."

Yng nghalon llawer o ffermydd, mae y teuluoedd tu cefn, sydd wedi helpu i ddiogelu y fferm am flynyddoedd i ddod.

Y mae teulu Cwmwythig yn amlwg yn un o'r ffermydd hyn, yn cynnwys tad-cu, mam-gu, tri mab, a'u teuluoedd, ac unarddeg o wyrion.

Eu prif ffocws yw cynhyrchu llaeth, gyda 750 o wartheg, yn defnyddio llafur teuluol, dau o staff llawn amser, a rhai gweithwyr rhan amser o dro i dro.

Mae y teulu Evans hefyd, oherwydd y lleoliad arfordirol, wedi eu symbylu i drosi adeiladau y ffermydd i lety gwyliau. Mae y fusnes hon wedi tyfu yn gyflym ac y maent erbyn hyn yn rhedeg deunaw o fythynnod, gyda chynlluniau i drosi rhagor.Yn ogystal y maent yn cynnig Gwely a Brecwast mewn dau o'u cartrefi.

Mae ymweliadau ysgolion, hefyd, yn ran o agenda dyddiol y teulu.

Meddai Arnold a Cynthia "Rydym yn falch o'n gorchest i fedru darparu gwaith i'n teulu i gyd, a hefyd yn hynod o falch, fod y wobr wedi dod i Gymru fach, sy'n ein gwneud yn deulu hapus dros ben."

Dymunwn ninnau fel pentrefwyr pob iechyd a rhwyddineb iddynt i'r dyfodol, a balch hefyd eu bont wedi rhoi Pen-llwyn ar y map.

Er diddordeb: y beirniaid yn eu catagori hwy, oedd: Dewi Davies, Rheolwr Amaethyddiaeth, Barclays dros Ogledd Cymru a Swydd Caer, John Denning Perchennog Westmoorland Ltd a Sylfaenydd Gwasanaethau Traffordd Tebay, a Emma Penny, Golygydd y *Farmers Guardian*.

## Swydd Newydd

Mae Richard Howells, Tomos, wedi cael swydd fel Trydanydd yn y coleg yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddo, a dymuniadau gorau.




## Penodiad newydd

Pob hwyl i Iwan Meirion, Maes y Glyn, a benodwyd yn Is-Gadeirydd Cenedlaethol Mudiad y Ffermwyr Ifanc. Yn enedigol o Dal-y-bont, Meirionnydd, bu Iwan yn hynod weithgar efo'r Mudiad gyda Chlwb Ffermwyr Ifanc Ardudwy (ymunodd â'r Clwb yn 11eg oed a bu yn ysgrifennydd a thrysorydd iddynt cyn iddo fod yn 16 oed) ac yn ddiweddarach bu'n Is-Gadeirydd a Chadeirydd Sir Feirionnydd. Yn rhinwedd ei swydd ym maes coedwigaeth bu'n byw mewn amrywiaeth o ardaloedd ledled y Deyrnas Unedig gan gynnwys Dumfries a Swydd Efrog. Dychwelodd i Gymru yn 2010; tra'n denant ar fferm gyngor yn Harlech roedd yn cadw defaid a moch. Symudodd i ardal y Tincer ar ôl i'w wraig Sian gael swydd darlithydd yn Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes Prifysgol Aberystwyth. Mae Iwan bellach yn Reolwr Cynaeafu Canolbarth Cymru gyda chwmni annibynol. Dymuniadau gorau iddo ar ei dymor.

## Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Y wraig wadd yn ein cyfarfod ym mis Tachwedd oedd Mair Jones ac fe'i croesawyd gan Beti Daniel y llywydd. Cyflwynodd bedwar rysait i ni - o'r sawrus i'r melys gan gadw mewn cof ein bod ar drothwy'r Nadolig. Cyn ymweld â ni, bu'n brysur yn coginio er mwyn sicrhau bod ganddi samplau o'r bwydydd hynny. Oedd, roedd y bwyd yn apelio at y llygad. Ond nid dyna ddiwedd y cyflwyniad a gawsom. Aeth Mair Jones yn ei blaen i ddangos ei diddordeb a'i gallu mewn maes arall, drwy arddangos peth o'i gwaith crefft – gwnïo, gwau a chrosio. Gwelwyd hefyd ddefnydd newydd ar gyfer coes brws!

Diolchwyd i'r wraig wadd gan Eirwen McAnulty. Margaret Dryburgh a Heulwen Lewis oedd yn gyfrifol am ofalu bod cwpanaid a bisgedi ar gael ar ddiwedd y noson ac fe gawsom hefyd flasu'r danteithion y daeth Mair Jones gyda hi. Glenys Griffith enillodd y wobr raffl.

Edrychwn ymlaen at gyfarfod y mis nesaf pryd y byddwn yn dathlu'r Nadolig a phen blwydd y gangen.

### Priodas

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Sarah Mair Gates a Phillip Hughes, a briodwyd yn Eglwys Dewi Sant ar 26ain o Hydref, gan y Parchedig Ian Girling, Eglwys y Drindod Aberystwyth.'Roedd y briodferch yn edrych yn brydferth iawn, ac er fod y diwrnod hytrach yn gymylog, tywynnodd yr haul arni am rai munudau, fel yr oedd yn cyrraedd yr eglwys. Felly y dywediad, "Hapus yw'r briodferch y mae'r haul yn tywynnu arni." Cafwyd, mae'n debyg wasanaeth hyfryd, ac yng ngwledd y briodas diddanwyd y gwesteion, gyda chân gan Sarah sydd yn aelod o'r grwp yr "Hornetts". Dymunwn briodas dda i Mr a Mrs Hughes, sydd wedi ymgartrefu yn Rhoslwyn, 9 Pen-llwyn.

### Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch yr Eglwys nos Fercher, 2 Hydref yng ngofal Mrs Heather Evans. Y pregethwraig wadd oedd Mrs Lona Jones, Penrhyn-coch a'r organydd oedd Mr David Evans, Bow Street. Braf oedd gweld cynifer dda o bobl yn y gwasanaeth

Mi addurnwyd yr Eglwys yn hyfryd. Cyfanswm y casgliad oedd £81 ac fe'i rhoddwyd tuag at Cymorth Cristnogol. I ddilyn cafwyd lluniaeth ysgafn yn Neuadd yr Eglwys. Diolch i bawb am eich cymorth a'ch cyfeillgarwch ym mhob ffordd.

### Trywydd Treftadaeth Eglwysig

Mae Eglwys Dewi Sant yn rhan o Drywydd Treftadaeth Eglwysig a chynhaliwyd cyfarfod ar ddydd Mercher, 6 Tachwedd yn Eglwys Sant Mihangel, Llanfihangel Genau'r-glyn.

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

**ytincer@googlemail.com**

Pennau
COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122



# Ysgol Penrhyn-coch



Diddanu a rhoddi rhoddion i drigolion Tregerddan



Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol

## Trawsgwlad

Aeth holl ddisgyblion blynyddoedd 3 i 6 i lawr i Gaeau'r Ficerdy i gymryd rhan yn rasys trawsgwlad y Cylch. Gwelwyd dros 80 o ddisgyblion yn cymryd rhan ym mhob ras. Llongyfarchiadau i bawb fu'n rhedeg. Llwyddodd y canlynol i orffen yn y deg uchaf o fewn eu rasys unigol. Byddant yn awr yn cystadlu yn rasys Trawsgwlad y Sir yn y flwyddyn newydd. Da iawn chi.

Luke Bowen(10fed); Clay Nash(2il); Llion Edwards(4ydd); Rhys James(10fed)

## Coedwig

Teithiodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen i lawr i'r Goedwig yn ddiweddar. Treuliwyd y bore yng Nghoedwig Gogerddan. Bu'r disgyblion wrthi yn casglu dail, cyflawni gwaith celf amrywiol a chreu cerddoriaeth arbennig. Bu'r disgyblion hefyd yn dysgu am eu hamgylchfyd ac yn arsylwi ar yr adar a'r anifeiliaid yn eu cynefin. Trwy lwc, cafwyd tywydd ffafriol iawn.

## Caban Newydd

Braf ydy gweld y Caban Newydd wedi agor. Erbyn hyn, rydym wedi croesawu y Cylch Meithrin i lawr atom ar safle yr ysgol. Mae'r caban wedi gweddnewid campws yr ysgol. Yn ogystal â'r Cylch, mae Clwb Cwl wedi symud i mewn i'r caban ac yn rhedeg yn ddyddiol rhwng 3.30 p.m. a 5.30 p.m. Maent yn cynnig darpariaeth i ddisgyblion o 3 oed i fyny. Erbyn hyn, anfonir amserlen wythnosol allan yn nodi y gweithgareddau a gynigir. Hyd yma, cafwyd sesiynau celf, coginio, DVD, chwarae ynghyd â blasu bwyd. Os ydych am i'ch plentyn fynychu Clwb Cwl, cofiwch archebu lle o flaen llaw gan ei fod yn boblogaidd iawn erbyn hyn.

## Rygbi

Am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd, teithiodd tîm rygbi o'r ysgol i lawr i Aberaeron i gymryd rhan yn nhwrnament rygbi'r Rhanbarth. Buont yn ymarfer o dan ofalaeth Mr Steve Donnelly a chafwyd llawer o hwyl wrth baratoi. Diolch i Steve am ei barodrwydd i gynorthwyo gyda'r disgyblion. Yn ystod y twrnament, llwyddwyd i ennill un gêm a cholli'r ddwy arall er iddynt fod yn agos iawn. Braf oedd gweld y disgyblion yn mwynhau ac yn cael y cyfle i gymryd rhan.

## Cinio'r Gymuned

A hithau yn wythnos Diolchgarwch yr Ysgol, anfonwyd gwahoddiad i fynychwyr Cinio'r Cymuned i ddod atom i'r ysgol i gael eu cinio. Gwelwyd tua 25 o unigolion yn dod atom a chawsant ginio rhost o gig eidion ynghyd â phwdin blasus. Bu hyn yn gyfle iddynt weld safon y ciniawau ysgol a weinir yn ddyddiol ac i gymdeithasu gyda disgyblion yr ysgol. Gwelwyd disgyblion blwyddyn 6 yn cyflawni rôl y gweinwyr gan gwblhau eu gwaith yn gydwybodol. Diolch iddynt am eu gwaith arbennig. Ar ddiwedd y cinio, bu disgyblion yr ysgol yn canu ac yn diddanu'r henoed. Cyflwynwyd rhodd iddynt gan ddisgyblion yr ysgol. Diolch i'r aelodau hefyd am eu haelioni ac am ddod atom i ddathlu diolchgarwch. Diolch i Mrs Watkins a staff y gegin am eu holl waith paratoi. Gobeithiwn weld aelodau'r gymuned yn dod yn ôl atom unwaith eto yn y ddyfodol agos.

## Cartref Tregerddan

Aeth criw bychan o ddisgyblion yr ysgol draw i Gartef Tregerddan cyn gwyliau hanner tymor. Treuliwyd y cyfnod yn diddanu'r henoed ac yn sgwrsio â hwy. Cyn yr ymweliad, casglwyd losin gan y disgyblion a chyflwynwyd y rhain i'r trigolion yn ystod yr ymweliad. Diolch am y croeso a gafwyd yno.

## Diolchgarwch

Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch yn yr ysgol. Aeth pob dosbarth ati i baratoi eitemau a darlleniadau. Gwelwyd pob disgybl yn cael cyfle i ddweud darnau. Diolch i bawb a ddaeth a losin i'w cyflwyno i drigolion Cartref Tregerddan.

## Croeso

Croeso i Miss Julie Hall atom fel aelod o staff newydd. Bydd Miss Hall yn gweithio pedwar diwrnod yr wythnos.

## Llongyfarchiadau

Llogyfarchiadau i Miss Hughes sydd wedi rhoi genedigaeth i ferch fach – Lia Jane.

## Gweithgareddau Nadolig

Cynhelir cyngherddau Nadolig yr ysgol ar ddwy noson eleni. Bydd yr ysgol yn cyflwyno un sioe. Cynhelir cyngherddau Nadolig yr ysgol yn Neuadd y Penrhyn ar yr 11eg a'r 12fed o Ragfyr. Bydd y perfformiadau yn agored i bawb. Byddwn yn gwerthu rhaglenni yn ystod y bythefnos cyn y perfformiadau. Byddwn yn cyflwyno perfformiad arbennig i henoed Penrhyn-coch ar brynhawn dydd Mercher yr 11eg o Ragfyr am 1-30 p.m.
Croeso i bawb.

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Ymweliadau

Ar fore'r 10fed Hydref, aeth dosbarth y Cyfnod Sylfaen ar daith gyda disgyblion Cylch Meithrin y Borth i wylio sioe Sbri-di-ri yn Ysgol Gyfun Pen-glais. Cafodd y disgyblion hwyl wrth ganu'r caneuon, cymdeithasu a chwrdd â'r gwestai arbennig, Mr Urdd!

### Cystadlu

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Cylch Ysgolion Aberystwyth yn ddiweddar. Roedd y cystadlu'n frwd a bu'n brynhawn blinedig i'r disgyblion. Llongyfarchiadau hefyd i'r disgyblion a fu'n cystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd ar ddydd Mercher 13eg Tachwedd. Roedd safon y cystadlu yn uchel iawn trwy gydol y dydd ond llwyddodd nifer o ddisgyblion sicrhau safleoedd canmoladwy iawn. Da iawn!

### Perfformio

Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn ystod mis Hydref yn perfformio yn y gymuned. Ar brynhawn dydd Iau 17eg Hydref aeth yr ysgol gyfan i ymweld ag aelodau o Gymdeithas yr Henoed yn y neuadd bentref. Croesawyd y disgyblion gan Betty, ac yna trosglwyddwyd yr awenau i'r disgyblion. Cafwyd gwledd o ganu, actio a darllen cerddi gan y disgyblion a chafwyd perfformiadau gan yr offerynwyr. Cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch yn Eglwys St. Matthew, y Borth ar ddiwedd hanner tymor. Roedd hi'n braf iawn gweld cymaint o bobl yn llanw'r eglwys a chefnogi'r gwasanaeth. Diolch yn fawr i Joy Cook am ddiddanu'r plant gyda stori diolchgarwch, hefyd i'r ficer, Cecilia Charles am roi'r fendith.



### Lansiad Apêl y Pabi Coch

Braf iawn oedd cael croesawu cangen Lleng Frenhinol Brydeinig y Borth i Ysgol Craig yr Wylfa ar 23ain Hydref ar gyfer lansiad Apêl y Pabi Coch. Cafodd pob un o'r disgyblion wisgo pabi coch a dysgu ychydig am ei arwyddocâd.

### Diolch

Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i Bwyllgor Carnifal y Borth am eu rhodd garedig o £1,000 i'r ysgol yn dilyn llwyddiant y carnifal eleni. Mae'n siŵr bydd y disgyblion a nifer o syniadau ar sut i wario'r rhodd!!






mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Cam wrth Gam
hyfforddiant blynyddoedd cynnar

**Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?**

Dyma gyfle gwych ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** yn y gweithle.

**Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015.**

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: post@camwrthgam.co.uk

neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan:

**www.camwrthgam.co.uk**

**Dyddiad cau: 24 Ionawr, 2014**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ysgol Pen-llwyn

## Gwasanaeth Lawnsio Apel y Pabi

Yn ddiweddar cawsom wasanaeth arbennig yn yr ysgol er mwyn lansio Apêl y Pabi yn ardal Aberystwyth. Roedd aelodau o'r Lleng Brydeinig wedi gwahodd yr Ysgol i gymryd rhan yn ei lansiad blynyddol. Roedd yn fraint i ni fel ysgol i dderbyn y gwahoddiad. Roedd llawer o bobl yn bresennol o'r Lleng Brydeinig, Cyngor Ceredigion a'r Cyngor Cymuned a myfyrwyr o Goleg Aberystwyth mewn gwisg Rhyfel Byd Cyntaf. Buodd y plant yn canu ac adrodd fel rhan o'r gwasanaeth hefyd. Roedd yn wasanaeth diddorol a chofiadwy i'r disgyblion.








## Gwasanaeth Diolchgarwch

Ar ddiwedd mis Hydref, cawsom ein gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yn yr ysgol. Fe wnaethon ni wahodd rhieni a ffrindiau yr ysgol i ymuno â ni. Ein thema oedd ' Diolch am ddwylo'. Roedd holl blant yr ysgol wedi cymryd rhan wrth ddysgu caneuon newydd a darnau adrodd. Aeth y gwasanaeth yn hwylus dros ben a chawsom gyfle ar ddiwedd y gwasanaeth i gymdeithasu dros baned a bisged. Diolch i bawb am gefnogi ein gwasanaeth.

## Nadolig

Byddwn yn cyflwyno ein sioe Nadolig ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 17eg yn y prynhawn ac yn y nos. Byddwn hefyd yn cynnal ein Ffair Nadolig ar nos Fercher, 18fed o Ragfyr. Cadwch lygaid allan am bosteri gyda mwy o fanylion.

## Plas Braw

Llongyfarchiadau i Morgan ac Ana Joyce am lwyddo i dderbyn tystysgrif a medal o Lyfrgell y Dref am gymryd rhan yn eu hymgyrch ddarllen dros wyliau'r haf. Enw'r cynllun oedd Plas Braw, ac roedd rhaid i'r plant ddarllen o leiaf 6 llyfr dros wyliau yr haf. Da iawn chi.

## Trawsgwlad

Yn ddiweddar bu holl ddisgyblion dosbarth 2 yr ysgol i Lanbadarn i gymryd rhan yn rasys trawsgwlad y cylch. Gwnaeth pawb redeg yn dda iawn, a mwynhaodd pawb y profiad o gystadlu yn erbyn ysgolion.

## Bags 2 School

Eleni eto rydym yn casglu eich hen ddillad gyda chwmni Bags2School. Os oes gennych hen ddillad, dillad gwely, llenni a.y.b yna dewch â nhw i'r ysgol ar ddydd Gwener, Rhagfyr 6ed erbyn 9.y.b.

## Croeso

Rydym yn croesawu dau ddisgybl newydd i'n plith hefyd. Croeso i Miley a Robert Jarvis i Ysgol Pen-llwyn.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwersi Gitâr
**Tiwtor**: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk
Gitâr i'r Cristion
01974 299367
Gwasanaeth Symudol
Dysgwch yn eich cartref
CYSYLLTWCH!



# Ysgol Rhydypennau

### Diolchgarwch

Ar ddydd Mercher y 23ain o Hydref, cynhaliwyd cyngerdd Diolchgarwch blynyddol yr ysgol. Yn wahanol i'r arfer mentrwyd allan o neuadd yr ysgol i Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn er mwyn cynnal Gwasanaeth Diolchgarwch ffurfiol. Rhoddwyd croeso i henoed yr ardal a thrigolion y gymuned. Cafwyd gwledd o ganu a llefaru graenus; ac yn ystod ein gwasanaeth trefnwyd casgliad ar gyfer ein helusen eleni, sef 'Ambiwlans Awyr Cymru'. Casglwyd £225.00.

Hoffwn fel ysgol ddiolch i'r Eglwys, yn enwedig i'r Parchedig Peter Jones am hwyluso'r trefniadau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Diolch hefyd i Mr Gareth William Jones, ein gŵr gwadd. Diolch hefyd i Gapel Bethlehem am fodloni ni i gynnal te'r diolchgarwch yn y festri. Diolch i Mrs Meinir Fleming a staff y gegin am luniaeth y p'nawn. Heb anghofio ychwaith Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am gwrdd a'r costau teithio.

### Yn y gymuned

Ar y 24ain o Hydref bu nifer o'r plant yn cynrychioli'r ysgol yn y gymuned. Bu rhai o'r plant hŷn yn cyfrannu i noson goffi neuadd y pentref trwy berfformio sesiwn adloniant i'r gynulleidfa.

### Ymweliad

Yn ystod Gwasanaeth diweddar cafwyd ymweliad gan Louise Mathews, Jenny Bettany ac Abbey'r ci. Mae Louis yn hyfforddi cŵn i'r deillion; ac mae Abbey yn arwain ac yn helpu Jenny sy'n rhannol ddall. Cafwyd sesiwn holi ac ateb ddiddorol iawn.

### Rygbi'r Urdd

Roedd hi'n amser eto i gystadlu ym mhencampwriaeth Yr Urdd. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. O ystyried fod safon cyffredinol grŵp y bechgyn yn heriol iawn gwnaethant yn dda i guro un ysgol a cholli o drwch blewyn yn unig i dair ysgol arall. Hen dro ond perfformiad campus!

### Trawsgwlad

Cynhaliwyd Trawsgwlad Cylch Aberystwyth ar ddydd Gwener 11eg o Hydref ar gaeau'r Ficerdy. Cynrychiolwyd yr ysgol gan 59 o blant blynyddoedd 3 i 6. Llwyddodd pob un ohonynt i gyflawni'r cwrs a chafwyd perfformiadau arbennig gan y canlynol gan iddynt orffen yn y deg cyntaf:-
Elin Morgan bl 3 (8ed); Elen Morgan bl 3 (9ed); Lily Lyons bl 4 (5ed); Megan Glover bl 4 (7ed); Lydia Powell bl 5 (1af) Griff Lewis bl 4 (6ed); Siân Duckett bl 6 (4ydd); Cerys Scott bl 6 (5ed); Jac Griffiths bl 6 (7ed). Mi fyddant nawr yn rhedeg yn erbyn y goreuon o Geredigion yn y flwyddyn newydd. Pob hwyl iddynt!

### Hoci

Dyma ganlyniadau diweddar:-
Rhydypennau A 5 Llanilar 1
Rhydypennau B 1 Ysgol Gymraeg A 1
Rhydypennau A 2 Penrhyn-coch 2
Rhydypennau B 7 Ysgol Gymraeg B 0
Rhydypennau A 3 Ysgol Gymraeg A 1
Rhydypennau B 0 Padarn Sant 0
Rhydypennau B 3 Llanilar 1

### T. Llew Jones

Ers marwolaeth T. Llew Jones fis Ionawr 2009 sefydlwyd diwrnod arbennig i gofio am yr awdur a'r bardd enwog. Ar ei ben blwydd, 11eg o Hydref, bu'r plant yn mwynhau gwrando ar ei farddoniaeth a rhai o'i storïau enwog ac yn hyn o beth, cofio am Frenin llenyddiaeth plant Cymru.


Diolchgarwch - Gareth William Jones yn difyrru'r gynulleidfa.


Ymweliad Arbennig.

### Clwb Cant

Dyma ganlyniad fis Tachwedd
1af - £25 Pearl Warrington, 47 Greenfield Street.
2il - £15 Lizzie Edwards, Angorfa, Y Borth.
3ydd-£10 Paula Graham. 26 Bryncastell.


Noson Adloniant yn Neuadd y Pentref.


Y Tîm Rygbi.


Trawsgwlad.

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk

# Tasg y Tincer

Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau hanner tymor, a diolch i bawb fu'n lliwio llun llong y môr-ladron y mis diwetha. Roedd rhai ohonyn nhw'n frawychus iawn! Bydden i ddim eisiau gweld un o'r rhain ym Mae Ceredigion – fyddech chi? Braf iawn oedd gweld sawl enw newydd yn rhoi cynnig ar y dasg. Da iawn chi! Dyma pwy fu'n lliwio: Harri van de Vyver, Y Fenni; Kayla Allsopp, Penrhyn-coch; Siân Mari Evans, Capel Dewi; Sion Lewis Davies, Llangeitho; Owen Jac Roberts, Rhydyfelin; Ellie Mai, Caerdydd; Harri Evans, Caerdydd.

Ti, Kayla, sy'n ennill y mis hwn, efo'r baneri lliwgar ar dy long, a'r benglog a'r esgyrn lliw gwaed ar y faner fawr – ych a fi!

Roedd sawl gwrach, ysbryd, sgerbwd a chreadur digon od yn crwydro pentrefi ardal *Y Tincer* ar Noson Calan Gaeaf, a gwelais i un bwmpen arbennig iawn ym Mrynmeillion a'i llygaid a'i cheg yn goleuo'r nos! Gobeithio i chi gael hwyl ar y gwisgo a'r coluro, ond gobeithio na ddaru chi godi ofn ar ormod o bobl. A beth am noson Guto Ffowc? Roedd yr awyr yn llawn sŵn a chyffro, yn doedd? Faint o rocedi welsoch chi'n gwibio drwy'r tywyllwch, a sawl olwyn dân? Roedd y sioe gawson ni ar Gae'r Piod yn werth ei gweld. Y mis hwn, beth am liwio'r rocedi wrth iddyn lenwi'r nos â'u sŵn a'u lliwiau llachar? Welsoch chi rai fel y rhain? Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Rhagfyr 1af, a ta tan toc!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**


**M THOMAS**
**Plymwr Lleol**
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**JONATHAN JAMES LEWIS**
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

**GOLCHDY LLANBADARN**
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES



ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 363 | TACHWEDD 2013